

ECO'R WYDDFA

Rhif 194

HYDREF 1993

Pris 25c

CYRRAEDD WAHROONGA

CYRRAEDD Y £10,000



Y Cynghorydd R. H. Owen,
Llanberis.



Groeslon, Waelfawr.

Mae nifer o drigolion hynaf bro'r Eco yn cofio'r mastiau a gwifrau a arferai sefyll ar hyd llethrau'r Cefn Du uwchben Ceunant. 'Roeddynt yn adnabyddus i bawb fel gorsaf Marconi, ac oddi yno, ym Medi 1918, yr anfonwyd neges radio hanner ffordd o gwmpas y byd i Wahroonga, Awstralia. Yr wythnos ddiwethaf, union dri chwarter canrif yn ddiweddarach, cafodd rhai o drigolion yr ardal hon y cyfle i ailadrodd y gamp.

Sefydlodd Marconi yr orsaf radio yn wreiddiol yn 1915, gyda'r bwriad o anfon negeseuon i'r America. Yn fuan wedyn clywodd un o beirianwyr Marconi, oedd ynm gweithio yn Awstralia, negeseuon gwan yn cyrraedd y wlad honno. Yn 1918 aeth Marconi, gyda chymorth offer mwy pwerus, ati o ddifrif i geisio anfon negeseuon i Awstralia. Prif Weinidog Awstralia ar y pryd oedd Billy Hughes, un oedd wedi ei eni yng Nghymru ac a oedd yn ôl pob sôn yn siarad Cymraeg. Oherwydd y cysylltiadau Cymreig yma dangosodd gryn ddiddordeb ym menter Marconi, ac roedd yn bresennol yn y Ceunant pan anfonwyd y neges tyngedfenol am 3.15 y bore ar 22 Medi 1918.

I gofio'r achlysur aeth Clwb Radio Amatur y Ddraig ati i ailadrodd y gamp 75 mlynedd i'r diwnod yn ddiweddarach. Llwyddwyd i gysylltu

Llethrau'r Cefn Du a mastiau radio Marconi, tua 1918.

â Wahroonga am 8.16 a.m. ein hamser ni. Eglurodd Dewi Roberts, Cadeirydd y Clwb, nad oedd yr

amgylchiadau yn ddigon da i siarad yn uniongyrchol ag Awstralia felly fe anfonwyd y neges yng nghôd Morse.

CYRRAEDD Y BRIG



Eurgain Haf, enillydd cystadleuaeth Stori Fer
Cymdeithas Celfyddydau Cymru.

Mae'n anodd credu bod bron i ugain mlynedd ers marwolaeth sydyn y Cynghorydd R. H. Owen ar Ragfyr 15, 1973. Yr oedd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth i Lanberis a'r cylch. Penderfynwyd defnyddio'r arian a roddwyd er cof amdano i sefydlu cronfa arbennig a fyddai'n cynnig cymorth i bobl ifanc o'r ardal i ddilyn cwrs addysg bellach.

Buddsoddwyd yr arian, ac ers hynny defnyddiwyd y llog yn flynyddol i roi grantiau i fyfyrwyr ifanc. Erbyn hyn cafodd degau o bobl ifanc gymorth trwy'r Gronfa. Rhannwyd dros £600 ym mis Medi eleni, sy'n golygu bod y Gronfa hon erbyn hyn wedi rhannu dros £10,000 ers ei chychwyn. Y mae ymddiriedolwyr y Gronfa yn falch iawn bod y garreg filltir hon wedi ei chyrraedd. Gall unrhyw un a fu'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail wneud cais am gymorth yn ogystal â rhai dan 25 oed a anwyd yn Llanberis neu sydd â'u rhieni wedi byw yn Llanberis am o leiaf bum mlynedd.

Llongyfarchiadau i Eurgain Haf, Sycharth, Penisarwaun, ar ennill gwobr o £300 mewn cystadleuaeth ysgrifennu Stori Fer gan Gymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru. Roedd ei stori, 'Y Coflaid' yn stori ddwys am angyles o wraig yn gofalu am ei gŵr ac yntau bellach wedi suddo i fyd o anghofrwydd. Dim ond un goflaid fechan ganddo bob hyn a hyn a'i cadwai hithau i frwydro ymlaen.

Nodir ym meirniadaeth Dr Harri Pritchard Jones: 'Y rheswm pam mae ei stori hi "Y Coflaid" yn cel y wobwr gyntaf ydy fod ganddi'r ddawn i fynd o dan groen pobl o wahanol oedran a safle, a darn o brofiad unigryw yn hanes rhywun yn gofalu am anwylyn sydd wedi colli'i bwyll'.

Cyflwynwyd y wobwr iddi gan Gwyn Erfyl gerbron cynulleidfa deilwng yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas, ddydd Gwener, Medi 24ain, yn Siambr y Cyngor Sir yng Nghaernarfon.

Wedi cinio bwffe yn y Ffreutur, traddodwyd darlith ar 'Darledu a'r Celfyddydau yng Nghymru' gan Geraint Talfan Davies, rheolwr BBC Cymru. Dymunir pob llwyddiant iddi eto i'r dyfodol.

ECO'R WYDDFA

Rhif 194
HYDREF 1993

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(670115)

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWYR

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (674669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

Gareth Williams, Angorfa,
Rhes Rhythallt, Llanrug (673683)

Tony Storey, Awel y Mynydd,
Ceunant, Llanrug (650600)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stad Tŷ
Hen, Waunfawr (650599)

TREFNYDD GWERTHIANT

Siân Gwenfron Hughes, Derlwyn,
Ffordd yr Orsaf, Llanrug

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(0248 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwynedd ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (676733)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, HYDREF 28

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

NOS LUN, HYDREF 18

os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
TACHWEDD RHAGFYR	HYDREF 28 RHAGFYR 2	CWM-Y-GLO LLANBERIS	Mrs Iris Rowlands Mr Gwilym Evans	872275 872034

Dymunaf ddiolch i'r cysylltwyr am eu cydweithrediad a'u parodrwydd i fy nghynorthwyo i drefnu'r rota am y flwyddyn.

Llythyr

Hen Luniau Dyffryn Ogwen

'Cicafan'
Braichmelyn
Bethesda
Bangor
(0248) 600423

Annwyl Olygydd,

Mae Cymdeithas Ddiwylliadol
Dyffryn Ogwen newydd gyhoeddi
llyfryn Hen Luniau Dyffryn Ogwen
sy'n cynnwys bron i 120 o hen luniau
am £2.

Yn ei ragair i'r llyfr mae'r Dr Dafydd
Roberts, Curadur Amgueddfa'r
Gogledd yn 'atgoffa pawb sydd yn
lloffa yn y llyfr mai hanes
cymdeithas, hanes cydweithio,
cydaddoladu, cydaddoli, cydorfoleddu
a chyd-ddioddef yw hanes y fro, ac
mai'r hyn sydd i'w weld yn y
ffotograffau yw eiliadau llonydd a
fu'n rhan o fywyd cymdeithas a
gyfunai'r cwbl o'r nodweddion hyn'.

Argraffwyd 1,000 o gopiau o'r llyfr
a chafwyd archebion am 750 cyn ei
gyhoeddi. Mae'n amlwg y bydd y
cyfan wedi mynd o fewn ychydig
wythnosau. Os hoffai rhywun o blant
y dyffryn sydd ar wasgar (neu
rhywun â diddordeb yn y Dyffryn)
brynu copi, gellir ei archebu drwy
anfon siec am £2.35 (yn cynnwys
cost y cludiad) yn daledig i
'Cymdeithas Ddiwylliadol Dyffryn
Ogwen' i mi yn y cyfeiriad uchod.

Yn gywir iawn,

DAFYDD ORWIG

Cymdeithas Cymry Ariannin

Glandŵr
Ffordd Cynan
Ffordaethwy
Ynys Môn
Gwynedd
LL59 5EY

Annwyl Olygydd,

Hoffwn dynnu sylw eich darllenwyr
at gymdeithas sy'n cyfarfod
deirgwaith y flwyddyn yn ysgoldy
Capel Penuel, Bangor. Bum mlynedd
a hanner yn ôl sefydlwyd Cangen
Môn ac Arfon o Gymdeithas Cymry
Ariannin ac ers hynny aeth o nerth
i nerth gan fwy na dyblu ei
haelodaeth cyntaf o bedwar ar ddeg.

Cymdeithas ydyw ar gyfer y rhai
sydd yn ymddiddori yn y Wladfa
Gymreig ym Mhatagonia ac er i
amryw o'r aelodau ymweld â'r wlad
honno nid yw hyn yn wir am bob un
ohonynt. Cawn gyfle yn ein
cyfarfodydd i wrando ar sgysiau'n
ymwneud ag Ariannin ac i roi croeso
i ymwelwyr oddi yno.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf
hyn bu llawer o Gymry yn ymweld
â'r Wladfa ac efallai y carai rhai

ohonynt ymuno â ni yn ein
cyfarfodydd. Os felly beth am ddod
i Festri Capel Penuel, Lôn y Cariadon,
Bangor, nos Iau, 28 Hydref am 7.30.
Yno cewch wrando ar sgws gan y
Bonwr Gwyn L. Williams am
gerddoriaeth Ariannin a chael cyfle
i ddod i adnabod yr aelodau. Ac wrth
ymaelodi byddwch yn hybu'r cyd-
berthynas sy'n bodoli rhwng y ddwy
wlad.

Os ydych am ragor o wybodaeth
cyn y cyfarfod ffoniwch fi ar
Borthaethwy 712576.

Yn gywir,

CATHRIN WILLIAMS

Mae gen i hawl

Annwyl Olygydd,

Bydd cyfres newydd o 'Mae Gen i
Hawl' yn cychwyn ar Radio Cymru
ar ddydd Mercher, 6ed Hydref.

Rhaglen yn cynnig cymorth i
wrandawyr Radio Cymru ydi 'Mae
Gen i Hawl', felly os oes arnoch chi
angen help i gael iawndal, i roi hwn
i gwmni adeiladu i orffen eu gwaith,
i gwyno am safon gwasanaeth
mewn tŷ bwyta neu mewn garej,
dyma'ch cyfle.

Gall tîm 'Mae Gen i Hawl' roi
cyngor cyfreithiol i chi yn rhad ac am
ddim yn ogystal â chynnig
gwybodaeth i chi fel defnyddwyr.

Y cyfeiriad ydi: 'Mae Gen i Hawl',
BBC Radio Cymru, Bryn Meirion,
Bangor, Gwynedd LL57 2BY. Rhiff
ffôn: (0248) 370880. Felly cofiwch
gysylltu!

Yn gywir,

LOWRI EVANS

Cynhyrchydd 'Mae Gen i Hawl'

Blwyddiadur Eisteddfodau Cymru

Annwyl ddarllenwyr,

Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus ar faes
prifwyl Ceredigion, Aberystwyth i
gynrychiolwyr Eisteddfodau Cymru,
gofynnwyd i'r Eisteddfod
Genedlaethol baratoi Blwyddlyfr
Eisteddfodau Cymru, i bontio rhwng
Awst '93 ac Awst '94. Mae'n
cynnwys manylion am yr holl
Eisteddfodau ar hyd a lled y wlad, o'r
Bontnewydd i Bonterwyd, ac o
Borthcawl i Batagonia!

Mae'r blwyddiaduron ar gael yn
awr yn rhad ac am ddim o Swyddfa'r
Eisteddfod yng Nghaerdydd, felly,
peidiwch oedi rhag ein ffonio ar
0222 763777 i archebu copi.

Yn gywir,

ELERI TWYNOG DAVIES

Swyddog Marchnata a

Chyhoeddusrwydd

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

Digywilydd-dra'r Tŵr

71 Bramham Drive
Harrogate

Annwyl Olygydd,

Fe garwn ofyn cwestiwn sydd o
bosib yn cael ei ofyn gan eraill wedi
gweld y cyfeiriad at dŵr eglwys Sant
Padarn, Llanberis, ar dudalennau'r
Eco y mis d'wytha. Pryd cafodd y
tŵr archwiliad proffesiynol
ddiwethaf? Gallaf gofio'r bri oedd i'r
eglwys flynyddoedd yn ôl. Hanner
can mlynedd yn ôl roedd lluo o
ddringwyr, cerddwyr, ac eraill yn
cael lloches yn yr eglwys. Mae'n
siŵr bod y rhain yn rhoi rhoddion i'r
eglwys. Roedd gan yr eglwys
aelodaeth gref bryd hynny hefyd.
Ond gwaetha'r modd ni roddwyd
ystyriaeth i gyflwr y tŵr. Erbyn
heddiw sylweddolwyd bod y tŵr
angen meddyginiaeth, a gwnaed
apêl am £60,000 oddi wrth y
plwyfolion ac ardalwyr Llanberis.
Felly disgwylir i bobol Llanberis a'r
cylch dalu am ddifaterwch y
gorffennol.

Cefais i fy magu yng Nghwm-y-
glo, ac yr wyf wedi edmygu
pentrefwyr a masnachwyr Llanberis
am eu cefnogaeth ddiderfyn i bob
achos da. Ond digywilydd-dra noeth
yw gofyn iddynt godi arian o'r math
yma!

Mae Llanberis, fel llawer i ardal
arall, wedi gweld addoldai yn cael eu
dymchwel, neu eu troi yn
fasnachdai. Pam dylid cyfrannu at y
£60,000? Gellir seboni'r bobol trwy
ddweud bod yr eglwys yn adeilad
hanesyddol. Ond lol botes yw hynny.
Mae'n bosib y caiff y £60,000 ei
wario, a'r eglwys yn cael ei chau o
fewn rhyw flwyddyn wedyn. Nid
rhywbeth a ddigwyddodd dros nos
yw'r dirywiad yng nghyflwr y tŵr.
Mae clwy henaint yr adeilad y tu
hwnt i'w adfer.

Yn gywir iawn,

S. GRIFFITHS

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon

LLANRUG

Caernarfon 673513



Oes yma broblem?

Derbyniwyd y sylwadau isod gan un o drigolion yr ardal sydd yn amlwg yn bryderus ynglŷn â'r sefyllfa y mae'n ei disgrifio. Oes yma broblem? Oes angen cymeryd camau i'w datrys? Beth yw eich barn chi? Buasem yn ddiolchgar iawn o dderbyn ymateb i'r sylwadau yma.

Fe'm synwyd yn ddiweddar o weld cymaint o bobol ifanc yn cerdded o gwmpas Stryd Fawr, Llanberis — ugeiniau os nad cannoedd ohonynt — mae'n bur debyg eu bod o wahanol bentrefi'r ardal. Yn ddiweddarach yr un noson roedd yna ugeiniau yn eistedd ar y waliau a'r palmentydd, rhwng Siop Sbar a Siop Joe Brown a hynny y ddwy ochr i'r ffordd. Dim byd o'i le yn hynny meddech chi, ond o sylwi yn fanylach sylweddolais fod y rhan fwyaf ohonynt yn yfed alcohol o rhyw fath, a chryn nifer o dan ddylanwad y ddiod.

Wel, ia, iawn meddech chi eto, mae hynny wedi bod yn digwydd ers cyn cof yn yr ardaloedd hyn pryd y byddai pobol ifanc yn cael rhyw swig bach o larger, chwerw neu fwyn mewn rhai o dafarnau'r pentrefi neu yn yfed o'r caniau bach handi yna sy' i'w cael o'r archfarchnadoedd neu o rewelloedd eu cartrefi. Ond bu newid mawr. Wrth sylwi yn fanylach ar yr hyn sy'n cael ei yfed gan rai o'r bobol ifanc hyn fe welwch mai gwirodydd, gwinoedd â lefel

uchel o alcohol, larger cryf, a seidr cryf sydd yn boblogaidd. Dyna hefyd yw patrwm yr hysbys a geir ar hyn o bryd yn ein papurau newydd ac ar y teledu — asesu cryfder, sef lefelau uchel o alcohol mewn diodydd gan defnyddio hynny fel pwynt marchnata.

Oes yma broblem?

Os fydd y patrwm yma yn parhau beth fydd yr oblygiadau pan fydd yr ieuencid hyn tipyn bach yn hŷn?

Callio meddech chi? Wel ia, mae'n debyg mewn rhai achosion . . . ond wn i ddim am hynny tra bont yn niwedio eu cyrff â lefelau llawer rhy uchel o alcohol.

A yw pregethu cymedroldeb wedi methu? Os felly a'i bai ar y rhieni yw hyn?

Bu cryn gynwrf yn Llangefni yn weddol ddiweddar ynglŷn â phroblem cyffuriau, ond bellach, drwy gydweithio dygn pobol yr ardal honno, mae'r sefyllfa, yn ôl a deallir, o dan reolaeth ac mae pethau wedi gwella yno (ym mhob agwedd o fywyd — llai o dor-cyfraith, ac ati). Onid yw problem alcohol neu yn hytrach y cam-ddefnydd ohono gan ein hieuenctid — a'r bobl hŷn hefyd wrth gwrs — yn broblem yr un mor astrus ag un cyffuriau o ystyried canlyniadau cam- a gor-ddefnydd?

Onid yw'n bryd asesu'r sefyllfa yn ein pentrefi (gan mai nid yn Llanberis yn unig y gwelir sefyllfa fel y'i disgrifir uchod) ac os oes rhaid, yna — fel yn Llangefni — cydweithio i wella'r sefyllfa?

Derbyniad Teledu a Radio ym Mro'r Eco

Mae gorsaf deledu Llanddona a'i his-orsafoedd, sy'n gwasanaethu ardal arfordir gogledd Cymru, bellach yn gallu darlledu rhaglenni teledu ar BBC Cymru ar 1 a BBC Cymru ar 2 gyda sain stereo. Datblygwyd y system, sef system ddigidol NICAM 728, sy'n danfon signal ychwanegol ar wahân i'r signal sain teledu mono arferol, gan y BBC.

Cychwynnodd Teledu'r BBC ei wasanaeth stereo NICAM gyda lansio trefnlenni rhaglenni'r hydref ddwy flynedd yn ôl. Mae gan 20 o'r prif orsafoedd teledu yr offer i drosglwyddo'r signal stereo NICAM. Ynghyd â rhyw 500 o is-orsafoedd mae'r rhain yn cyrraedd tua 84% o boblogaeth y wlad. Mae is-orsafoedd Llanddona wedi eu lleoli yn Amlwch, Betws-y-coed, Caergybi, Cemaes, Coed Derw, Conwy, Deiniolen, Dolwyddelan, Ffestiniog, Gronant, Llandecwyn, Llanengan, Maentwrog, Mochdre, Penmaen Rhos, Trefo'r a'r Waunfawr, hefyd yn darlledu rhaglenni stereo NICAM ar BBC Cymru ar 1 a BBC Cymru ar 2.

Mae gorsaf Llanddona a'r is-orsafoedd hyn yn cyrraedd rhyw 240,000 o bobl mewn ardal sy'n cwmpasu Ynys Môn, rhan ogleddol Gwynedd a'r ardal arfordirol cyn belled â Prestatyn.

Yn dilyn cyhoeddi gwybodaeth am wella derbyniad Radio Cymru yn Eco mis Mehefin fe derbyniwyd y sylwadau isod gan Gomer Davies, Tre-garth. Yn sicr byddant o ddiddordeb i'n darllenwyr:

Wrth dynnu sylw at dderbyniad gwell o Radio Cymru nid oedd rhifyn Mehefin o'r Eco yn egluro bod angen symud o 94.2 MHz i lawr at 92.5 MHz. Efallai fod nifer o'r fro heb syklweddoli cystal yw'r derbyniad newydd, o ardal Bethel,

Deiniolen i ben Bwlch Llanberis — ond bod angen ail-diwnio o Llanddona i'r Bigil.

I'r rhai hynny sydd yn teithio o gwmpas Cymru mae Radio Cymru yn y canolbarth (Rhayadr, Llanelwedd, Llandrindod a Llanwrtyd) ar 93.5 MHz. Rhwng Aberhonddu a Chaerdydd defnyddiwyd 96.8 ac ar hyd y gorllewin o Geredigion i Frynecir yr amledd yw 93.1 MHz.

Mae 94.2 (Llanddona) yn iawn yng ngogledd Gwynedd, ac y mae 104.3 yn rhagorol ar hyd y gogledd ac allan i fyny'r M56, M62 a'r M6 yn Lloegr a hefyd mewn rhannau o Bowys.

Dyma rai amleddi dros rai ardaloedd llai: Dolgellau 94.5; Betws-y-coed 92.6; Llandeilo 92.8; Llanidloes 912.5 (fel y Bigil); Aberhonddu 93.3 a Machynlleth 93.8.



**ORIEL
PLAS
GWYN**

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis

Ffôn/facs: 0286 672619

Richard S. Humphreys

ANTUR PADARN

**RHAGLEN WAITH
GYNHWYSFAWR**

Mewn cyfarfod o Antur Padarn a gynhaliwyd ar nos Fercher, 15 Medi, yn yr Institiwt, Llanrug, penderfynwyd yn unfrydol o blaid gweithredu rhaglen waith gynhwysfawr am y misoedd nesaf.

Penderfynwyd o blaid cymryd rhan mewn trafodaeth gyda Awdurdod Datblygu Cymru i edrych ar y posibilrwydd o gael un Swyddog Datblygu i wasanaethu ardaloedd Dyffryn Nantlle, Padarn ac Ogwen. Yn ogystal gobeithir cael cefnogaeth yr Awdurdod Datblygu ar gyfer comisiynu arolwg o sut i wella canol pentrefi Deiniolen a Llanberis ac ar gyfer arolwg o anghenion busnesau

lleol. Gobeithir cael cefnogaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cyngor Sir Gwynedd, Cyngorau Cymuned lleol a haneswyr lleol tuag at gyhoeddi llyfryn a fyddai yn cynnwys gwybodaeth lawn a diddorol am y gwahanol lwybrau cyhoeddus niferus sydd yn Nyffryn Padarn. Hefyd parhau i weithio ar y gwahanol syniadau sydd wedi eu cynnwys fel rhan o Strategaeth Tymor Byr/Hir yr Antur. Felly, rhaglen waith gynhwysfawr a hynod ddiddorol.

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Antur ar **nos Iau, 7 Hydref am 7 yn yr Institiwt, Llanrug**. Gobeithir cael Mr John Humphreys o Awdurdod Datblygu Cymru yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Mae croeso, fel bob amser, i unrhyw un sydd â diddordeb yng ngwaith yr Antur i ddod i'r cyfarfod.

**Aled
Jones**

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

**4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047**

**OSMOND SHAW
DEINIOLEN**

GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545



**J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

CHWILOTA

Cerddorion ac Awduron



Yn ddiweddar deuthum ar draws dwy gyfrol fechan sy'n taflu peth goleuni ar gerddorion ac awduron o'r fro hon yn niwedd y ganrif ddiwethaf a dechrau'r ganrif bresennol. Mae'n debyg fod copïau o'r cyfrolau ym meddiant nifer o ddarllenwyr yr Eco, ond faint tybed all roi gwybodaeth am y cerddorion a'r awduron sydd a'u gwaith wedi ei gyhoeddi ynddynt?

Enw'r gyfrol gyntaf yw *Odlau'r Afon*, sef tonau ac emynau ar gyfer angladdau yn ardaloedd Dinowrig a Deiniolen. Fe'i hargraffwyd gan Gwenlyn Evans yng Nghaernarfon yn 1898. Ar y flaen-ddalen rhoir y rhesymau dros gyhoeddi'r gyfrol gan J. Salt, Ficer Llandinorwig ar y pryd: 'y cyflwr truenus y mae canu yn yr angladdau wedi syrthio iddo, a'r dymuniad cyffredinol sydd trwy'r gymdogaeth am gael llyfr o'r fath'. Un rheswm dros y dirywiad mewn canu angladdol oedd 'fod tonau y naill gynulleidfa yn ddieithr i'r llall'. Dymuniad y pwyllgor fu'n gyfrifol am gyhoeddi'r llyfr oedd: 'Yn holl angladdau yr ardal yn y dyfodol, mabwysiedir y llyfr hwn. Gobeithio y gwelir copi ohono yn llaw pob un a fydd yn bresennol; yna gallwn ddisgwyl canu a fydd yn deilwng o ardal mor gerddorol a hon.'

Mae dwy dôn yn y gyfrol yn amlwg â chysylltiadau lleol, sef 'Disgwylfa' a 'Mara'. Cyfansoddwr 'Disgwylfa' yw H. D. Thomas. Ar y copi a welais i roedd rhywun wedi ysgrifennu mewn pensil wrth ochr ei enw: 'taid Henry Peter, Pencraig'. Ond pwy oedd H. D. Thomas? A phwy tybed oedd Henry Peter, Pencraig?

Cyfansoddwr 'Mara' yw Evan E. Jones, Ebenezer. Ni cheir unrhyw wybodaeth arall amdano.

Os oes unrhyw ddarllenwr all daflu goleuni ar y ddau gyfansoddwr hwn byddaf yn falch iawn o glywed gennych.

Yr ail gyfrol yw *Nest Cwm Eilir a Chaniadau Eraill*, gan John M. Pritchard, a argraffwyd yn Swyddfa'r Herald, Caernarfon, yn 1910. Mae'r awdur yn ysgrifennu o Glwt y Bont ar Fawrth 19 o'r un flwyddyn, ac yn cyflwyno'r llyfr i: 'Chwarelwyr darllengar bro fy maboed, y rhai sydd yn caru y pur, y tlws a'r cain'. Ni cheir

unrhyw wybodaeth am yr awdur yn y gyfrol.

Wrth chwilo'ta hefyd deuthum ar draws enw cantor a alwai ei hun yn 'Eos Marchlyn'. Bu mewn peth trafferth yng Nghaernarfon am ymladd yn ei ddiod. Ymddangosai'n eithaf rheolaidd mewn buddgyngherddau yn yr ardal yn ystod chwarter olaf y ganrif ddiwethaf.

Os oes gennych unrhyw wybodaeth am yr uchod, neu unrhyw sylwadau am hanes y fro, anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug. (0286) 673515.



Ymweliad 'Cylch Ti a Fi' â Byd Adar, Brynsiencyn.

Cylch Ti a Fi: Mae Clwb Ti a Fi Brynrefail eisoes wedi ail-ddechrau ac rydym yn cyfarfod rhwng 10 ac 11 o'r gloch bob bore dydd Llun. Mae croeso cynnes i rieni a'u plant ddod am fore o chwarae.

Ym mis Gorffennaf bu'r plant a'u rhieni yn mwynhau ymweliad â Byd Adar ym Brynsiencyn. Yn anffodus, mae'r plant ers hynny wedi colli gwasanaeth dwy o sylfaenwyr y

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Côr Meibion Dyffryn Nantlle: Ar yr 28ain o Awst — noson braf o haf yng nghanol tywydd drwg — cafwyd noson gerddorol a barbeciw yn lard yr Hen Ysgol Fach, Brynrefail.

Daeth dros 200 o bobl ynghyd i wledda ac i wrando ar Seindorf Arian Llanrug yn gosod y noson yn y cywair iawn gan orffen gyda datganiad gan Gôr Meibion Dyffryn Nantlle. Gwnaed elw o £530 tuag at gronfa'r côr tuag at eu hantur i Atlanta y flwyddyn nesaf i ymuno â Chôr y Byd.

Fe garwn ddatgan ein diolchgarwch i swyddogion Eglwys M.C. Brynrefail am ganiatâd i ddefnyddio byrddau, ac ati; ac am gael cynnal y noson ar yr iard, ond mae ein diolch mwyaf i'r holl bobl a ddaeth ymlaen i ymuno mewn noson mor lwyddiannus.

Cymdeithas y Chwiorydd: Croesawyd yr aelodau wedi mis o seibiant yn y cyfarfod a gynhaliwyd, dan lywyddiaeth Mrs J. A. Roberts, ar Fedi 1af. 'Roedd y defosiwn yng ngofal Mrs Euronwy Roberts, 8 Trem Eilian. Y gŵr gwadd am y noson oedd Mr David Whiteside Thomas,

Llanrug. Cafwyd noson ddiddorol yn ei gwmni yn olrhain hanes y pâr enwocaf efallai a fu'n byw yn y pentref erioed — Marged Uch Ifan a'i phriod Rhisiart Morys y cerddor, Penllyn. Diolchwyd iddo gan Mrs Ifanwy Jones. Trefnwyd y baned gan Mrs Betty Owen a Mrs Jennie Hughes. Ar derfyn y cyfarfod trefnwyd i gasglyddion fynd o amgylch y pentref i gasglu tuag at Gymdeithas y Beiblau yn ogystal â threfnu lluniaeth ar gyfer Hydref 12fed pan fydd Henaduriaeth Arfon yn ymweld â'r Eglwys. Cynhelir cyfarfod olaf tymor 1993 ar nos lau, Hydref 7fed, pryd y disgwylir Mrs Maureen Lennon, Llanberis, i roi sgwrs.

Eglwys M.C. Brynrefail: Gwasanethwyd yn yr oedfa fore Sul, Medi 12fed, gan y Gweinidog, y Parchg John Morris, pryd y gweinyddwyd y Sacrament o Swper y Arglwydd. Anfonwyd cofion at bedwar o aelodau'r eglwys na fu'n dda eu hiechyd yn ddiweddar, sef Mrs Gwyneth Evans, Miss A. M. Williams, Mrs J. A. Roberts a Mr O. J. Williams.

Nos Fawrth, Medi 14eg, cafodd yr eglwys y fraint o groesawu'r Henaduriaeth mewn dau gyfarfod arbennig o dderbyn ac ordeinio blaenoriaid newydd Henaduriaeth Arfon. Am 6 o'r gloch ymddiddanwyd â'r brodyr a'r chwiorydd oedd i'w hordeinio — tri ar ddeg ohonynt — gan Mr Geraint Jones, Bontnewydd. Yn dilyn am 7 o'r gloch roedd y cyfarfod cyhoeddus i'w hordeinio dan lywyddiaeth Llywydd yr Henaduriaeth, Mr Alun Ogwen Jones, Bethesda. Arweiniwyd mewn defosiwn gan Miss Gwyneth Owen, Seilo, Caernarfon, ac ordeiniwyd y blaenoriaid gan Lywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd, y Parchg O. R. Parry. Cafwyd gair o weddi ar yr ordeiniad gan y Parchg James Clarke, a thraddodwyd y Cyngor gan Lywydd y Gymdeithasfa. Bydd ymweliad ffurfiol yr Henaduriaeth â'r Eglwys yn cael ei gynnal ar Hydref 12fed, ac eleni fe gynhelir yr Wyl Ddiolchgarwch, ddydd Sul, Hydref 31ain.

Sefydliad y Merched: Nos Lun, Medi 20fed, cyfarfu'r gangen yn y Festri dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Croesawyd ganddi y wraig wadd, sef Mrs Sue Cook o Lithfaen a chafwyd arddangosfa o'i gwaith yn arlunio ar goed. Diolchwyd iddi gan Mrs Carol Houston. Paratowyd y baned gan Mrs Ifanwy Jones a Mrs Gwawr Morris a diolchwyd iddynt gan Mrs Jennie Hughes. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Miss Lowri P. Roberts, gan Mrs Eleanor Williams.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Catrin Gwyn, merch Mr a Mrs Gwyn Hefin Jones, Rhandir, ar ei phen-blwydd yn 21 oed ar Fedi 26ain. Estynnwn ein dymuniadau gorau iddi hefyd yn ei phedwaredd flwyddyn fel myfyrwraig yng Ngholeg y Brifysgol Caerdydd wrth baratoi am ei gradd mewn Ffrangeg a Sbaeneg.



Mrs Judith Pritchard a Mrs Catherine Jones yn derbyn blodau ar eu hymddeoliad o 'Cylch Ti a Fi'.

**Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri**

am brisiau rhesymol

**ELWYN
PRITCHARD**

Parc Padarn, Llanberis

Ar agor Llun — Gwener

10.00 — 3.30

**I gysylltu tu allan i'r oriau
hyn ffoniwch**

Llanberis 870922

neu Bangor 351427

**Cefnogwch ein
Hysbysebwy**

'Un Funud Fach'

GOBAITH

'Yr enillydd ydi... Sydney.' Dyna'r pedwar gair a chwalodd yr holl obeithion am weld y Gemau Olympaidd ym Manceinion yn y flwyddyn 2000. Gwnaed y cyhoeddiad yn gynharach heno. Yn naturiol roedd yna ddathlu yn Sydney, ond siom enfawr ym Manceinion a'r tair dinas arall a fethodd ennill yr hawl i groesawu'r Gemau. Er yr holl obeithio felly ni chaiff y Gemau eu cynnal yng ngwledydd Prydain ar droed y ganrif. Cael eu siomi wnaeth pawb hefyd oedd wedi gobeithio y byddai gan Bwllheli ran yn y fenter trwy fod yn gartref i'r cystadlaethau hwylio.

Hen brofiad poenus ydi gweld gobeithion yn diflannu. Gallwn ddychmygu'r siom a deimlai'r rhai a fu'n gweithio'n galed ers blyneddau i ddenu'r Gemau i Fanceinion. Wedi'r holl chwysu, y dadlau, y pledio, y breuddwydio a'r gobeithio fe fethwyd â chyrraedd y nod. Ond roedd rhywrai'n siŵr o gael eu siomi. Waeth pa mor gryf oedd y gobaith, a phan mor dda oedd y ceisiadau, dim ond un fedrai ennill y ras hon. Gall gobeith fod yn beth mor ansicr.

Mae gan Gristnogion obaith, ond bod hwnnw'n obaith sicr na fydd yn cael ei siomi. Gobaith ydyw am nerth a chysur; am faddeuant a help i garu Duw; ac yn y diwedd am y nefoedd a'r bywyd tragwyddol.

Mae'n obaith sicr am ei fod yn dibynnu'n llwyr ar Dduw da sydd yn cadw ei air. Mae Duw wedi addo bod yr holl bethau hyn ar gael i bwy bynnag sy'n credu yn ei Fab Iesu Grist. Nid yw Duw yn dweud celwydd, ac felly ni chaiff neb ei siomi wrth gredu ei addewid. Mae'n amhosib gobeithio yn ofer yn Iesu Grist.

Mae'r Duw Mawr yn ein gwahodd i bwyso arno. Mae'n gallu cysuro'r rhai sy'n cael eu sigo gan drafferthion byw; mae'n gallu nerthu'r gwan; mae ganddo faddeuant ar gyfer yr euog; ac mae'n cynnig y nefoedd ar ben y daith. A does yna ddim oll a fedr ddrysu na chwalu'r gobaith.

JOHN PRITCHARD

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Clwb Pobl y Cwm: Ail agorwyd y Clwb wedi gwyliau'r haf gyda'r aelodau yn mwynhau sgwrs a chyfnewid atgofion am y gwyliau.

Dymunir anfon ein cofion at y cyfeillion a fu'n ffyddlon dros gyfnod hir ond sydd bellach yn analluog i ddo atom oherwydd gwaelled.

Rhoddwyd y baned a'r raffl gan Mrs M. Rowlands a Miss M. Davies ac enillydd y raffl oedd Mrs M. Roberts.

Bydd cyfle yn y cyfarfod nesaf i drefnu rhaglen y tymor.

Marwolaeth: Yn dawel ddydd Sul, Medi 12, yn 87 mlwydd oed bu farw Mrs Elisabeth Phillips, priod y diweddar Mr John Phillips, 3 Groeslon. Bu'r angladd ddydd lau, Medi 16, gyda gwasanaeth yng Nghapel y Tabernacl gyda'r Parchg Gwynfor Williams yn gweinyddu ac yn dilyn ym mynwent Llanrug. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w mab, Edwin, a'i merch, Nancy, a'u teuluoedd yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Adran Gymuned: Cynhaliwyd diwrnod chwaraeon ar iard yr Ysgol ddydd Sadwrn, Medi 11. Dyma'r canlyniadau — Ras beic dan 7: 1, Dewi; 2, Anest; 3, Kevin. Ras beic dan 10: 1, Keith; 2, Anthony; 3, Arwyn. Ras dan 5: 1, Llion; 2, Stephanie; 3, Dewi. Ras dan 7: 1, Josh; 2, Claire; 3, Louise. Ras dan 10: 1, Keith; 2, Gwynfor; 3, Anthony. Ras dan 11: 1, Keith; 2, Gwynfor; 3, Dafydd. Ras gyfenwid: 1, Tim Keith. Enillwyr y raffl oedd — 1, Mr G. H. Jones; 2, Mrs Helen Williams, Carmel; 3, Mrs Marjorie Roberts; 4, Mrs Peggy Rowlands; 5, Gwynfor Swift; 6, Leigh Williams; 7, Keith Williams; 8, Mrs Avril Jones; 9, Kerry, 13 Dôl Afon; 10, Mrs Marjorie Roberts; 11, Llion Jones; 12, Craig Jones; 13, Mrs Marjorie Roberts. Rhif lwcus: Mrs Sioned Jones a Martin Parry. Dymuna pwyllgor y Ganolfan ddiolch i bawb am eu cyfraniad i lwyddiant y diwrnod.

Clwb Ieuentid: Mae'r Clwb wedi dechrau tymor newydd ac yn cyfarfod yn y Ganolfan Gymdeithasol bob nos lau o 7.30 hyd 9.30 o'r gloch.

Ysgol Cwm-y-glo: Dyma ni ar ddechrau blwyddyn newydd yn yr ysgol. Croeso arbennig i bump o blant bach newydd i'r Dosbarth Derbyn — Kate Jones, Jessica Jones, Katie Pritchard, Alwyn Day ac Andrew Jones. Maent wedi hen setlo i lawr erbyn hyn ac yn hapus iawn yn nosbarth Mrs Williams.

Anfonwn ein cofion gorau at Kim, Garry, David ac Ann, gynt o Awelon, Cwm-y-glo. Maent bellach wedi symud i fyw i Lanrug ac yn mynd i'r ysgol yno. Gobeithio y byddant yn

hapus iawn yn eu cartref a'u hysgol newydd.

Gwahoddwn unrhyw un i ymuno â Chlwb yr Ysgol o'r newydd. Byddwn yn tynnu'r rhifau ar y diwrnod olaf o bob mis a thelir hanner yr arian mewn gwobrau tra bo'r gweddill yn mynd i Gronfa'r Ysgol.

Diolch o galon i chwi am gefnogi ein hymgyrch i gasglu 'vouchers' Smiths. Mae gennym ddigon erbyn hyn i archebu gwerth £50 o lyfrau i'r ysgol. Mae gennym ddwy ymgyrch arall ar droed rŵan, sef casglu 'vouchers' Boots ar gyfer offer chwaraeon a chasglu labeli o unrhyw focs 'Bird's Eye' ar gyfer llyfrau. Byddwn yn hynod falch o'ch cefnogaeth unwaith eto.



Kate, Jessica, Katie, Alwyn ac Andrew ar eu diwrnod cyntaf yn yr ysgol.

Cydymdeimlad: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mr Hugh Hughes, 1 Dôlafon yn ei brofedigaeth o golli ei briod, Mrs Jennie Mary Hughes.

Bingo: Cynhelir noson Bingo yn y Ganolfan Gymdeithasol ar nos Fawrth, 12 Hydref, am 7 o'r gloch a'r elw tuag at gronfa Eglwys Sant Gabriel.

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

GERDDI GLASCOED

(Ger Capel Glascoed)

PENISARWAUN

I'ch gardd fod ar ei gorau galwch heibio neu ffoniwch

870453



THE SEIONT MANOR HOTEL

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY



HAMDDEN

Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.

Swper rhamantus i ddau

Cinio hamddenol

Sgwrs hefo ffrindiau

dros baned o goffi

Brecwast, cinio neu

swper busnes

Parti dathlu

Cinio Dydd Sul i'r teulu

Gwledd brodas

fythgofiadwy

Sauna, nofio, ystafell

ffitrwydd

Ymlacio ym mar y

llyfrgell

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Dewis eang o Welyau Sengl a Dwbl. Dewis eang o '3 Piece Suites'. Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler' Gwaith Contract. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

WAUNFAWR 650291

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

O Siambr Selwyn

Yn gynta' ga' i ateb ymholiad Mrs D. M. Jones, Y Foelas, Llanrug, yn y rhifyn diwetha. Dyma'r englyn o waith Gwilym Cowlyd (William John Roberts) allan o'i awdl 'Mynyddoedd Eryri':

Y llynau gwyrddion llonydd — a gysgant
Mewn gwasgod o fynydd,
A thynn heulwen ysblennydd
Ar len y dŵr, lun y dydd.

Brodor o Drefriw oedd Gwilym Cowlyd, ac fe enillodd y gadair gyda'i awdl 'Mynyddoedd Eryri' yn Eisteddfod Conwy yn 1861. Cynhwysir yr awdl yn ei gyfrol *Murmuron* a gyhoeddwyd yn 1868. Gyda llaw, roedd o'n nai i Ieuan Glan Geirionydd. Roedd o'n gymeriad diddorol iawn, ac fe geisiodd o ei orau glas i ddisodli Gorsedd Beirdd Ynys Prydain drwy sefydlu gorsedd ei hun, ac fe gyfarfu'r orsedd bob blwyddyn rhwng 1865 a 1890 ar lan Llyn Geirionydd. Galwai ei hun yn 'Brifardd Pendant', a dywedir iddo fynd yn fethdalwr cyn diwedd ei oes. Os am fwy o'i hanes darllenwch gyfrol y diweddar Barchg Gerallt Davies, *Gwilym Cowlyd, 1824-1904*. Cymeriad diddorol yn sicr.

Ar drothwy'r brifwyl eleni fe gollwyd Gwilym arall, ac 'roedd ganddo yntau llyn', sef y Prifardd Gwilym R. Jones. Roedd Gwilym R yn un o'm harwyr eisteddfodol cynnar i, am iddo lwyddo i ennill y 'goron driphlyg eisteddfodol', sef cipio'r gadair, y goron a'r fedal ryddiaith. Dau yn unig, hyd yn hyn, sy' wedi llwyddo i wneud y gamp. Y Prifardd Tom Parri-Jones, Tŷ Pigyn, Malltraeth, oedd y llall ac fe aeth Tom un cam ymhellach drwy gipio'r goron ddwywaith — yn Llandudno 1963 a'r Drenwydd 1965. Y ddau ohonynt yn wŷr di-goleg.

Un o feibion Dyffryn Nantlle oedd y diweddar Gwilym R — dyffryn duw'r goleun, Llew. Yn ôl ei ragymadrodd i'w gyfrol, *Cerddi Gwilym R*, fe awgryma'r awdur i Llew ddychwelyd i Dyffryn Nantlle tua dechrau'r ganrif hon. Meddai:

'Prin y gallech chi chwarae ar lan ffrwd
Dôl Pebin, ar lethr Clogwyn Gwin, ar
y bala rhwng dau llyn, trochi eich traed
yn yr un ffrwd â Chilmyr Droed-ddu
a gwyllo'r haul yn hwylio i "bylu ar
draeth y Belan", heb i ryw awen eich
cyffroi hyd at fodiau eich traed.'

'Does na'r un pentre yng Nghymru sy' wedi codi cymaint o brifeirdd â hen bentre bach Tal-y-

sarn: R. Williams Parry — y brenin — cadair Bae Colwyn 1910 am awdl 'Yr Haf'; awdl a gyfansoddwyd ym mro'r Eco ym Mrynrefail. R. Silyn Roberts wedyn yn ennill coron Bangor 1902 am ei bryddest 'Trystan ac Eryllt', gyda'i gyfaill W. J. Gruffydd o Fethel yn dod yn ail iddo. Yna y ddau gyfaill a gadwodd Y *Faner* i chwifio dan amgylchiadau pur anodd am flynyddoedd — Gwilym R a Mathonwy Hughes.

Mathonwy yn ennill y gadair yn Aberdâr yn 1956 am ei awdl gellweirus a doniol ar y testun 'Gwraig'. Ffaith ddiddorol yw sylwi i Mathonwy a Silyn gael eu geni yn yr un tŷ. Bu bron i Mathonwy wneud y dwbwl hefyd gan mai ef oedd yn ail am y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Y Bala, 1967, gyda'i bryddest 'Corlannau'.

Ennill coron Caernarfon 1935 am ei bryddest 'Ynys Enlli' oedd camp eisteddfodol gyntaf Gwilym R. Dyna'r flwyddyn pryd y cipiodd Gwyndaf y gadair gyda'r gerdd arloesol 'Magdalen' — cerdd ar y mesur *vers libre* cynganeddol. Un ar hugain oed oedd Gwyndaf a'r bardd ieuenga 'rioed i ennill cadair y brifwyl.

Yn y brifddinas, Caerdydd, yr enillodd Gwilym R ei gadair a hynny yn 1938 am ei awdl 'Rwy'n edrych dros y brynau pell' — cerdd am Pêr Ganiedydd o Bantycelyn. Yn un o eisteddfodau'r rhyfel — Hen Golwyn 1941 — y cipiodd o'r fedal ryddiaith gyda'i nofel *Y Purdan*. Synnwn i ddim na fu iddo gystadlu am y goron yn Eisteddfod Castell Nedd 1934 hefyd, oherwydd yn ei gyfrol *Cerddi Gwilym R* fe geir prydddest ar y testun 'Y Gorwel'.

Tae waeth, dyna ddigon o ffeithiau a dyddiadau. 'Roedd o wedi hir gartrefu yn Nyffryn Clwyd, a'i ddymuniad oedd cael preliwd Sebastian Bach i seinio uwch ei arch:

Pan af fi at fy nhadau
Na chenwch bruddaidd donc,
Ond seiinwch uwch fy elor
Orfoledd nodau sionc.

Dawnsied o bibau'r organ
Brelwd Sebastian Bach:
Os seinir honno uwch fy nghist
Fe glywch chi glep fy esgryn trist.

Ys gwn i a gafodd ei ddymuniad?
Ei hen gyfaill ffyddlon a'i
gydweithiwr am flynyddoedd biau'r
gair olaf am y tro:

Trymach i mi fydd tramwy
A Gwilym R dan glo mwy.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Yr Ysgol Gymunedol: Y mae'r newydd ddyfodiaid wedi hen gartrefu yn nosbarth y babanod ac eisoes yn rhan bwysig o'r thema dan sylw, sef 'Pobl sy'n ein helpu ni' — a phwy well na phlismen i roi cychwyn da i'r gwaith onide? Daeth PC Alun Bevan, Swyddog Cyswllt, i roi sgwrs ddifys a diddorol i'r dosbarth.

Cyfeillion yr Ysgol: Cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol y Gymdeithas ar nos lau, 16 Medi, yn y Neuadd am 6 p.m. Diolchodd y Cadeirydd, Ann Ifans, i holl aelodau'r pwyllgor am eu cefnogaeth gref yn ystod y flwyddyn a aeth heibio gan sicrhau dros £1,390 i brynu offer er budd addysg y plant. Cydnabyddwyd effeithiolrwydd yr Ysgrifennydd, Ann Thomas, a diolchwyd i'r Trysorydd, Eifion Harding, am edrych ar ôl y coffrau —

a hynny yn ôl y fantolen i'r geiniogl Dymunir pob bendith i'r Cadeirydd newydd Mrs Bronwen Jones a'r Ysgrifennydd Mrs Beryl Jones. Diolchir i Eifion am gario ymlaen efo'r gwaith fel Trysorydd.

Bydd Cardiau Nadolig — wyth ym mhob pecyn — ar werth o rŵan i'r Nadolig. Plant yr Ysgol sy'n gyfrifol am y lluniau ac maent wedi'u hargraffu gan Peniprint. Bydd rhain ar gael yn yr Ysgol neu gan aelodau'r Cyfeillion. Gobeithio y byddwch yn cefnogi'r weithgaredd hon.

Cadw'n Heini: Y mae'r dosbarthiadau eisoes wedi cychwyn ers 8 Medi. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno yn y dosbarthiadau a gynhelir yn y Neuadd Gymuned bob nos Fercher o 8.30 ymlaen. Pris pob sesiwn yw £1.

YSGOL GYMUNED PENISARWAUN



Beth amser yn ôl cynhaliwyd cystadleuaeth yn yr Ysgol i gynllunio cerdyn Nadolig. Dewiswyd pedwar cynnig buddugol ac fe'u gwnaed yn gardiau Nadolig ar gyfer yr Wyl eleni. Yr ymgeiswyr buddugol oedd Stephen Jones, Nicola Lamerick, Jenny Morris ac Owen Howard. Mae'r cardiau ar werth yn yr Ysgol, neu drwy'r Cyfeillion' am £1.60 am becyn o wyth.

Dosbarthiadau Cymraeg: Tra fo'r plant bach yn yr Ysgol Feithrin mae'r mamau di-Gymraeg yn awyddus i ddysgu'r iaith. Y maent yn cyfarfod yn yr Ystafell Gymuned bob bore Mercher a Gwener o 9.15 a.m. hyd 12.00. Dymunir pob hwyl a llwyddiant i'r dysgwyr a'u hyfforddwyr.

Yr Ysgol Feithrin: Y mae 21 o aelodau ifanc yn yr Ysgol Feithrin hyd yma. Cynhelir y Feithrinfa yn Ysgol Tan-y-coed bob bore Mawrth, Mercher a lau. Dymunir pob hapusrwydd a bendith iddynt a'c i'w hyfforddwyr Judith Harding, Carol Porter a Jean Jones.

Dymunir diolch i bawb a gefnogodd yr Arwerthiant a gynhaliwyd ar Y Maes yng

Nghaernarfon, fore Llun, 27 Medi. Diolch o galon.

Cydyndeimlo: Estynnir ein cydyndeimlad llwyraf i Derek Roberts, 10 Bryn Eglwys, a'r cysylltiadau oll yn eu colled lem. Bu farw nain Derek yn Llandudno yn ddiweddar.

Diolch: Dymuna Julia a Robert Turner, Rhiannon, Laurence, Andrew, Gwenllian a Christopher, a'r teulu oll ddiolch yn ddiffuant i'r ardalwyr am y llu cardiau, ymweliadau, galwadau ffôn, rhoddion a phob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth lem o golli un mor annwyl a disglair ag Owen. Bu'r angladd yn Amlogfa Bangor ac fe ddaeth cynulliad enfawr o bobl a ffrindiau ifainc yno i dalu'r deyrnged olaf iddo.



Cyflwynwyd tystysgrif teilyngdod arholiad soddgrwth, gradd 1, i Eurig yn ddiweddar yn dilyn ei lwyddiant yn yr arholiad yn ystod yr haf.



Jenny Hamer, enillydd y gystadleuaeth cynllunio cerdyn Nadolig i'r Ysgol Feithrin. Mae'r cardiau i'w cael am £1.30 am becyn o 10 cerdyn o'r Ysgol Feithrin.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Llongyfarchiadau:

Llongyfarchwn An Catrin Foulkes, Gwynant, ar ennill gradd gydag anrhydedd ym Mhrifysgol Aberdein. Dymuniadau gorau iddi i'r dyfolol.

Llongyfarchwn hefyd Sioned Catrin Davies, Garth, am lwyddo i basio arholiad gradd 4, chwarae piano. Mae'n cael ei hyfforddi gan Mrs Heulwen Williams, Bethel.

Priodasau: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs John Morgan, Llwynbedw ar achlysur eu priodas. Dymuniadau gorau i'r ddau yn eu bywyd priodasol.

Dymunwn y gorau i Mark Jones, Cefn, a Fiona ar achlysur eu priodas ddydd Sadwrn, Medi 25.

Colli 'goriad: Wythnos neu ddwy yn ôl colodd rhywun allwedd car Fiat, ond sydd ar 'key ring' Ford Escort, y tu allan i'r Ysgol Gynradd. Mae'r allwedd i'w gael yn yr Ysgol i'r sawl a'i colodd.

Cydymdeimlo: Ddydd Mercher, 8 Medi, yn dawel yng nghartref ei brawd yn Nhrefriw, bu farw Miss Margaret Owen, 16 Bro Rhos, yn 83 mlwydd oed. Estynnir pob cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Yr Urdd: Yng nghyfarfod blynyddol y gangen etholwyd y canlynol yn swyddogion am y flwyddyn — Cadeirydd: Geraint Elis; Ysgrifennydd: Eirlys Williams; Ysgrifennydd Aelodaeth: Jên Roberts; yng ngofal chwaraeon: Mair a Siôn Williams; Arweinydd y gangen: Glenys Griffiths.

Penderfynwyd cynnal gweithgareddau'r gangen leol, fel arfer. Bydd y sesiwn cyntaf o 5.15 hyd 6.00 p.m. i blant Blynyddoedd 2, 3 a 4; a'r ail sesiwn i blant Blynyddoedd 5 a 6 o 6.00 tan 7.00 p.m. Gwahoddir pawb sydd yn dymuno ymaelodi â'r gangen ddod i'r Neuadd Goffa, ddydd lau, 21 Hydref, rhwng 5.30 a 6.30 p.m. Tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £4.

Yn ystod gwyliau hanner tymor bydd plant y gangen yn mynd o amgylch y pentref i gasglu arian i'r Urdd yn genedlaethol.

Yng Nghapel y Cysegr y cynhelir gwasanaeth Sul yr Urdd eleni a hynny ar 21 Tachwedd. Bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Merched y Wawr: Nos Fercher, 8 Medi, yn neuadd yr Ysgol croesawodd y Llywydd, Eirlys Williams, yr aelodau i gyfarfod cyntaf

y tymor. Y gŵr gwadd oedd y Parchg Harri Parri a chafwyd noson ddifyr yn ei gwmni gyda sgwrs a thrafodaeth ar bynciau amserol. Diolchwyd iddo gan Rita Williams.

Trist oedd clywed am farwolaeth disymwrth Miss Maggie Owen, un o'r aelodau hynaf a mwyaf selog y gangen.

Llongyfarchwyd plant y pentref ar eu llwyddiant yn yr arholiadau yn ddiweddar, hefyd Non, merch Alys Jones, ac Angharad, merch Mair Price, ac aelodau o Lleisiau Lliffon, ar ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelwedd. Dymunwyd yn dda i Philip a Robert, meibion Margaret Williams, ar ôl derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn Lerpwl. Llongyfarchwyd Elwyn, mab Nora Parry, a'i wraig Llinos ar enedigaeth mab, Elwyn Rhys; a Meinir Williams ar enedigaeth merch, Siân Catrin.

Enillwyr y raffl oedd Sheila Williams a Deilwen Hughes. Cafwyd bwffe i ddiweddu'r noson wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fercher, 13 Hydref, yng nghwmni Alwyn a Sarah Jones yn arddangos blodau sych a ffres. Cystadleuaeth y mis fydd 'Trefniant Hydrefol'.

Neuadd Goffa: Enillwyr Clwb 200 am fis Awst oedd — £20: J. Elwyn Hughes, Bryn Ogwen; £10: Mrs Mona Williams, 9 Bro Rhos; a £5 yr un i: Gwenan Roberts, 14 Stad Eryri; Gareth Hughes, Erddig; Alwyn Jones, Bro Dawel; Heather Hughes, Coed Belyn; Oscar Evans, Swyn Eryri; Freda Jones, 3 Rhos-lan; Llinos Williams, Hafod; Edward Jones, 1 Celtic House.

Clwb 100 yr Ysgol Gynradd: Dyma enillwyr diweddar y Clwb 100 — Gorffennaf: £20, Idris Rees, 6 Y Rhos; £15, Mrs J. E. Davies, 2 Glanllyn; £10, Mrs Alys Peters, 13 Cremlyn; £5, Anwen Hall, 22 Bro Rhos; £3, Mrs S. Foulkes, Tyddyn Gwndwn. Awst: £20, Miss L. P. Roberts, Godre'r Coed, Brynrefail; £15, Mrs Newton, Llwydiarth; £10, Mr I. Pierce, Swyn-yr-awel, Llanrug; £5, Mrs J. Pugh, 9 Tan-y-buarth; £3, Mrs P. Jones, 15 Tan-y-buarth. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Llongyfarchiadau i Rita a Collwyn Williams, Elan, Tan-y-cae, ar fod yn nain a thaid ar enedigaeth mab, Gethin Wyn, i Manon a Gareth Griffiths.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Llongyfarchiadau: Dymunwn longyfarch Neil Johnstone, Tŷ Gwyn, ar ei briodas â Ffion Jones o Gaernarfon. Byddant yn cartrefu ym Methel. Hefyd llongyfarchwn Mandy Griffiths, Bro Waun, ar ei phriodas hithau â Ceirion Evans o Gaernarfon, ac maent wedi cartrefu yng Nghonwy.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Mr T. J. Griffiths, Ty'n Ronnen, ar ddod yn daid unwaith eto. Ganwyd mab bychan i'w ferch Helen a'i phriod Len, brawd bach i Ceri, Angharad a Gareth.

Adref o'r Ysbyty: Croesawn Mrs Lloyd Williams, Bryn Meredydd; Mrs G. Jones, 10 Tref Eilian; Mrs G. Jones, Bod Arthur, a Mr H. Westphall, Tref Eilian, adref ar ôl iddynt dreulio cyfnod yn yr ysbyty.

Yr Urdd: Mae cyfarfodydd yr Urdd wedi ailgychwyn ac mae croeso i ddisgyblion Safon 1-4 a Blwyddyn 1 yr ysgol uwchradd i ymuno. Tâl aelodaeth yw £3.50 — sydd yn

cynnwys noson yn y pwll nofio. Mae rhaglen gwerth chweil wedi ei pharatoi ar eich cyfer, felly dowch i ymuno.

Eisteddfod yr Ardal: Mae eisiau i'r cystadlaethau Llên i fod yn nwylo'r Is-ysgrifennydd, Carys Owen, Glyn Awel, erbyn 13 Hydref, os gwelwch yn dda. Bydd cystadlaethau coginio gwnïo, gwau, gwaith coed a metel, arlunio a ffotograffiaeth i'w beirniadu yn yr Ysgol Gynradd ar nos Fercher, 20 Hydref rhwng 6.00 a 6.45 o'r gloch. Dylid rhoi ffugenwr ar y gwaith a'r enw iawn mewn amlen gyda'r gwaith.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Nicola Ryan, y Llythyrdy, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed. Pob dymuniad da iti i'r dyfodol Nicola.

Adref o'r Ysbyty: Dymunwn wellhad buan i Mrs Iola Jones, Bron Eifion, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

CABS LLANRUG




C'fon 675951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

BARRY'S GLASS

- am Ffenestri a Drysau UPVC • Estimates am ddim
- Gwydr a gwydro o bob maint • Ffenestri Gwydr Dwbl
- Gwasanaeth bordio a gwydro 24 awr.



Y PRISIAU GORAU — GARANTID!

CAMELOT, PENISARWAUN

871144 (Dydd)

871774 (nos)

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Trefniadau Blodau Sych
a Ffres yn ôl eich gofyn
Alwyn a Sarah Jones

RACCA PENISARWAUN

- ★ Danfon blodau i ysbytai a chartrefi henoed
- ★ Addurno capeli ac eglwysi ar gyfer priodasau
- ★ Blodau ar gyfer angladdau
- ★ Stoc o flodau ffres



Galwch neu ffoniwch

870605

am fanylion

YN FY MARN I: Dafydd Iwan SIOM Y DDEDDF IAITH — BE' NESA'?

Yn nechrau'r 60au Mesur Tryweryn a ddangosodd mor ddiymadferth oedd Cymru'n wleidyddol. Os oedd Senedd Lloegr wedi rhoi ei bryd ar rywbeth doedd dim y gallai Cymru ei wneud i'w rhwystro. Roedd y farn gyhoeddus yng Nghymru yn erbyn boddi Cwm Tryweryn a Chapel Celyn yn unfryd, a phob Aelod Seneddol (ag eithrio un Tori, heddwch i'w lwch) hefyd yn erbyn. Ond doedd hynny'n golygu dim. Roedd Lerpwl angen y dŵr, ac mi basiodd y Senedd y Mesur yn ddi-drafferth. Ewyllys Lloegr a orfu, a gorfodwyd y Cymry o'u cartrefi, a boddwyd Cwm Tryweryn.

Ond ni fu'r frwydr i achub Cwm Tryweryn yn gwbl ofer, er hynny. Cynhyrwyd cenhedlaeth o Gymry ifanc gan yr anfadaeth a sgubodd ton o genedlaetholdeb newydd trwy Gymru gyfan. Arweiniodd Cymdeithas yr Iaith yr ymgyrch rymusaf dros yr iaith a welwyd erioed yn hanes y genedl, ac yn 1966 enillodd Gwynfor Evans sedd gyntaf Plaid Cymru. Cafwyd nifer o ddiwygiadau arwyddocaol i gydnabod statws y Gymraeg a statws y genedl Gymreig, a bu cynnydd sylweddol yn nifer yr ysgolion Cymraeg. Yn fwy na dim, dechreuodd y Cymry fagu hunan-hyder a hunan-barch.

Yn nechrau'r 90au gwelwyd yr ymgyrch rymus dros Ddeddf Iaith newydd yn cyrraedd ei huchafbwynt. Ond, unwaith eto, dangosodd Senedd Lloegr nad oes dim wedi newid yn sylfaenol ers y 60au. Doedd y consensws cryf o blaid y Ddeddf yn golygu dim yn y pen draw. Sefydlwyd Bwrdd Iaith di-ddannedd i geisio arafu'r broses, ac i dynnu gwynt o hwyliau'r ymgyrch, ond gorfodwyd y Bwrdd gan y farn gyhoeddus i alw am Ddeddf. Gwelodd y Llywodraeth ei chyfle, a chyflwyno Ddeddf oedd yn gwneud fawr ddim ond pasio'r broblem yn ôl i ddwylo Bwrdd Iaith statudol newydd. Yr ateb delfrydol i Senedd Lloegr, sef gadael i'r Cymry ddadlau â'u gilydd, ymrwygo ac ymrannu heb Ddeddf gadarn ddi-amwys yn sail i'r cyfan.

Gwaetha'r modd yr ydym ninnau'n rhy barod i syrthio i'r trap. Yn hytrach na chamu'n ôl i gymryd golwg newydd ar y sefyllfa, ac ystyried o ddifri ein blaenoriaethau, mae peryg mawr ein bod yn gwneud


yr union beth y mae'r gelyn am ei weld, sef ymladd ymhlith ein gilydd.

Gadewch inni wynebu ffeithiau. Nid yw Senedd Lloegr yn mynd i basio Ddeddf Iaith gynhwysfawr, pa liw bynnag yw'r Llywodraeth. Nid yw Senedd Lloegr yn mynd i basio unrhyw Ddeddf a fydd yn cydnabod cenedligrwydd y Cymry. Nid dyna yw pwrpas Senedd Lloegr. Pwrpas Senedd Lloegr yw cadw cenedl y Cymry dan draed, a'n noddi fel plentyn claf, a'n rheoli drwy gyfrwng cwangos enwebedig. Yr unig flaenoriaeth sy'n gwneud unrhyw synnwyr bellach yw ennill hunan-lywodraeth i Gymru, er mwyn i bobol Cymru benderfynu dyfodol ein gwlad. Nid delfryd ramantaidd mo hyn, ond angenrhaid. Mae dyfodol ein hiaith a'n diwylliant, a dyfodol ein cymunedau — gwledig a threfol — yn dibynnu ar ennill Senedd i Gymru, ac ail-sefydlu llywodraeth leol gref yn ein gwlad.

Peidiwch a fy ngham-ddeall! Rwy'n gwbl gefnogol i bopeth a ddigwyddodd i ddangos gwrthwynebiad i'r Ddeddf Iaith dila a basiwyd. Ar ôl i'r Llywodraeth wrthod pob ymdrech i'w chryfhau a pheri i wyneb y farn gref yng Nghymru, mi fyddem yn llai na dynion pe baem yn gorwedd i lawr a chymryd ein sarhau fel hyn heb daro'n ôl. Ond yr hyn yr wyf yn gwbl sicr ohono yw na ddylem bellach wastraffu ein hegri ar ymgyrchu i geisio perswadio Llywodraeth Llundain i basio deddfau sy'n cydnabod ein hawliau llawn ni fel Cymry. Yn hytrach, awgrymaf dri pheth y dylem eu gwneud:

Yn gyntaf, gosod hunan-lywodraeth ar flaen ein rhaglen wleidyddol.

Yn ail, hameisio'r egni positif sydd dros y Gymraeg yng Nghymru heddiw, yn enwedig ymhlith y



dysgwyr, pobol ifanc a rhieni di-Gymraeg sydd mor frwd dros anfon eu plant i ysgolion Cymraeg, i ddangos nad Deddfau Lloegr ond ewyllys pobol Cymru sy'n mynd i benderfynu tynged yr iaith.

Yn drydydd, sylweddoli fel y mae democratiaeth Cymru'n cael ei chwalu gan Lywodraeth sy'n canoli pob grym yn Llundain ac yn rhedeg Cymru drwy cwangos enwebedig. Dyna pam mae'n rhaid sefydlu Llywodraeth Gymreig ddemocrataidd. Yn y cyfamser, beth wnawn ni, optio allan a gadael i S4C, Tai Cymru, Cyngor y Celfyddydau, Awdurdodau Iechyd, Awdurdod Datblygu, y Bwrdd Iaith a phawb arall i wneud fel y mynnan nhw, yn gwbl ddilyfethair? Sgersli bilif! Yn

achos y Bwrdd Iaith, rhaid ei ddefnyddio hyd eithaf ein gallu i weithredu cyfartaledd swyddogol cyflawn i'r Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru, ac i gryfhau ym mhob modd hawliau'r Cymry i fyw ein bywyd yn Gymraeg, ac i ddwyn y Gymraeg i fywydau cynifer o'n cyd-Gymry ag sydd bosib. Dyw pacio'r Bwrdd â phobol gwrth-Gymreig ddim yn mynd i fod o les i neb, mwy nag yw rhwystro'r Bwrdd rhag gweithredu yn ymarferol.

Y peth pwysig yw cadw ein traed ar y ddaear a'n llygaid yn glir ar y nod, sef Rhyddid i Gymru. Hyd nes y cawn ni hunan-lywodraeth ni allwn ond ceisio gwneud y gorau o'r gwaetha — a chadw'r ffydd!

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna
679501 (gwaith); 677438 (cartef)

Gŵyl o Hwyl: Yn anffodus, ni thalwyd diolch i Mr Patrick Atkinson, Cefn Gof, yn y rhifyn diwethaf am iddo dorri'r gwair yn y cae chwarae ar fore'r Wyl. Diolch iddo am ei waith.
Priodas: Llongyfarchiadau i Yvonne Griffiths, Delfryn, ac Eryl Wyn Jones, Blaenau Ffestiniog, a briodwyd yng Nghapel y pentref yn ddiweddar. Byddant yn cartrefu yn Cynefin, 5 Tai Glangwna.

Marwolaeth: Wedi cyfnod byr yn ein mysg fe gollasom Mr Thomas Owen Jones (Tomi Cefn) a fu farw yn Ysbyty Gwynedd yn 82 oed. Cydymdeimlir â Gwyneth a'r teulu.
Priodas: Llongyfarchiadau i Delyth Jones, Llety'r Wennol, ar ei phriodas ag Iwan Thomas, Rhostryfan. Byddant yn cartrefu yn Fron Emrys, Llandwrog.

Gwasanethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis

Hydref am 2 o'r gloch —
3: (Diolchgarwch) Parchg W. R. Williams (Bugail);
10: Parchg H. Jones Parry;
17: Parchg Gareth Maelor;
24: Parchg W. R. Williams;
31: Parchg James Clarke.

Cymdeithas y Cae Chwarae: Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y pwyllgor yn lolfaf tafarn Bryngwna am 8 o'r gloch, nos Lun, 18 Hydref. Bydd cyfle i bawb leisio eu barn a chlywed am y dyfodol.

Swyddogion Eco'r Wyddfa: Clive James, Hafan, Tai Bryngwna (677438) yw'r gohebydd; a'r dosbarthwr yw Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf. Nid oes neb yn gofalu am y plygu ar hyn o bryd — gwaith unwaith y flwyddyn — ac fe fyddai Clive James yn falch o dderbyn enw un i ofalu am y gwaith hwn.

Tynfa Fisol: Enillwyr mis Medi oedd — £40: Tony a Tracy Jones, Islwyn, Stad Glandŵr (11); £25: Dafydd (Lodj) Roberts, 5 Brynteg (51); £15: Dafydd Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. Diolch i bawb am eu haelioni.



SIOP GREFFTAU
CAFFI
CANOLFAN GARDD

ANTUR WAUNFAWR

Ar agor bob dydd Sadwrn o 10 a.m. — 3 p.m.
o Fai 1af

Galwch i weld ein cynnyrch arbennig

AKA
SECURITY
SERVICE
Y Dderwen
Parc y Wern
BETHEL
Ffôn:(0286)
670608



**Rhag i hwn
alw, galwch
chi ni rŵan**
★ Larwms
★ Goleuadau
★ Cloeau
★ Pob math
o waith
diogelwch

ALUN THOMAS



Alun Thomas (ar y dde) gyda'i frodyr, John Emyr a Griffith Owen a'u mam, Mrs Sara Thomas. Cafwyd y llun gan Mrs Sally Thomas, 5 Bro Deiniol, Deiniolen.

Cawsom ymateb i stori'r rhifyn diwethaf am y diweddar Alun Thomas oddi wrth ddau o Ddeiniolen. Anfonodd perthynas iddo, Mrs Sally Lewis, atom lun o Alun Thomas a'i ddau frawd a'u mam, ac anfonodd Mr Huw Jones ei atgofion ef am gyfaill dyddiau mebyd. Dywed Mr Jones mai yn London House yr oedd Hugh a Sarah Jones a'u tri mab, Alun, John Emyr a Griff yn byw. Siop groser oedd London House ar y pryd. Gwerthid glo a brawd anifeiliaid yno hefyd, a'r nwyddau'n cael eu cario i Ddeiniolen o stesion Cwm-y-glo efo trol a cheffyl, cyn dyddiau'r lori. Bu farw Hugh Thomas yn gymharol ifanc a gadawyd ei weddw i gynnal y teulu a'r busnes. Dyna pryd y daeth Alun, y mab hynaf, i helpu ei fam i ofalu am y busnes.

Ymhen amser fe symudodd y teulu i fyw i Fangor, a llwyddodd y tri brawd yn eu gwahanol yrfaedd. Yn 1956 yr ymunodd Alun â'r Delta Group a dod yn amlwg iawn yn ei faes, fel y soniwyd yn y rhifyn diwethaf o'r Eco. Yr oedd yn briod, â chanddo un mab a thair merch.

Yr oedd Mr Hugh Jones yn falch iawn o ddarlenn yr hanes am ei hen gyfaill yn yr Eco ac yn y *Daily Telegraph*. Meddai amdano: 'Melys y cof am ddyddiau mebyd hapus yng nghwmni hogia London House.

Dau neu dri a'u cofiant
Lle gynt bu cant.'

DRAENOG



Baled yr Allwedd Cloedig
Trigolion bro Brynrefail
Gwrandewch y stori hon,
Am ferch o'ch bro sy'n
berchen

Ar gerbyn newydd bron.

Mae'n siŵr eich bod yn
gwybod

Am gadgets y ceir hyn,
Rhaid bod yn wir ofalus
Rhag mynd i gornel dynn.

Ond dyna beth ddigwyddodd
I berchen 'Godre'r Coed'
Pan oedd y glaw yn llifo
Ni fu'r fath strach erioed.

Wrth geisio mynd i agor
Y llidiart ger y drws
Fe gaeodd ddrws y cerbyd
Wel dyma yrrwr tlws!

Mae pawb yn dysgu gwersi
Drwy anlwc weithiau'n wir,
Mae'n wers i tithau Lowri
I'w gweld yn ddigon clir.

Pan fyddi'n dod o'r cerbyd
Tyrd a'r allweddi mäs
Rhag gorfod ffonio Bethel
A derbyn bil reit gas!



Janice Wyn Jones, 7 Cambrian Terrace, Llanberis, a Michael Francis Heslop o Abertawe a briodwyd yng Nghapel Jerusalem, Llanberis, ar 28 Awst.

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

GORSAF BETROL BERAN DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

**GWASANAETH TRIN GWALLT
YN EICH CARTREF I FERCHED,
DYNION A PHLANT**

LINDA MORRIS

**1 BRYN FEDWEN, Ffordd yr Orsaf
LLANRUG. Ffôn: 678857**



Rhifyn 6

1993

****NEWYDDION PWYSIG****
CYLCHGRAWN NEWYDD
I DRAFOD
GWYDDONIAETH A
THECHNOLEG
I YMDDANGOS CYN HIR
gweler tudalen...3

PELI TROED, BUCKY A HUDDUG


Mae ffurf safonol bellach i'r bêl a ddefnyddir gan dimau peldroed megis Bryncoch, Lerpwl a Chymru. Paratoir cragen y bel drwy wnio ugain darn lledr siap hecsagon a deuddeg siap pentagon at eu gilydd. Ymgorfforiad yw'r bel socer fodern o ddamcaniaeth fathemategol o'r ddeunawfed ganrif gan Leonhard Euler o'r Swistir.

Cyfrifodd Euler fod angen o leiaf deuddeg pentagon ac ugain hexagon cyn y gellir cau adeiladwaith i wneud sfferoid perffaith, fel pel droed. Mae angen dau ddeg a phump hecsagon i wneud siap pel rygbi. Yr un egwyddorion a barodd i'r Americanwr o beiranydd R.Buckminster Fuller gynllunio adeilad mewn siap cremen 'geodesic' ar gyfer arddangosfa'r Unol Daleithiau yn Expo '67 ym Montreal. Ail aroddwyd y cynllun hwn laweroedd o weithiau wedyn wrth adeiladu tai gwydr ac hyd yn oed bebyll ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol wrth i'r ffurf hwn ddod yn ffasiynol.


Ond 'roedd y ffurf hwn ar gael yn naturiol mewn adeiledd moleculau arbennig sy'n ymgasgliad o'r elfen carbon. Mae carbon yn elfen amryddawn iawn, yn rhoi i ni'r holl wahanol foleculau hanfodol i fywyd yn ogystal a'i ffurfiau pur. Ymddengys fod iddo dair ffurf naturiol, sy'n deillio o'r ffordd y cafodd ei ffurfio. Y math enwocaf efallai yw'r diemwnt, sydd yn grisial caled a disglair. Wedyn ceir graffid, rhyw fath o bowdwr du llithrig a ddefnyddir fel dargludydd trydan a gwres ac fel llithrigydd. Mae'r ddau yna'n wybyddus ers amser maith.

Ond yng nghanol yr wythdegau daeth trefniant newydd i'r amlwg, yn deillio o ymchwil yr Athro Kroto ym Mhrifysgol Sussex a Robert Curl a Richard Smalley ym Mhrifysgol Rice yn yr Unol Daleithiau. Pan ffurfir huddug o dan rhai amodau gall atomau o garbon ymgasglu'n beli bychain gyda chwedeg o atomau unigol carbon ynddynt, gyda patrwm eu gysylltiadau yn gwneud ugain hecsagon a deuddeg pentagon, yn union fel y bel socer. Ceir ffurfiau hirgrwn hefyd, ond nid yw y rhai hynny mor gyffredin a'r rhai crwn. Cafodd y moleculau hyn ei galw'n 'Buckminsterfullerene' neu 'Buckyballs' er cof am y peiranydd.

Oes rhyw werth i'r darganfyddiad hwn? Wel, ymddengys fod i'r sylwedd newydd-ddargafyddedig hwn nodewddion trydanol diddorol ac y gallant fod yn ddefnyddiol iawn i'r byd electroneg. Felly, pwy wyr na fydd dyfeisiadau yn ein cyfrifiaduron cyn hir sy'n dod o huddug. Cawn weld!



Pel 'Bucky' neu Bel-droed?



" Rydw i'n poeni am ein plant - dydyn nhw ddim yn bwyta digon o rwtsh!"

Cyfranwyr i'r rhifyn hwn: Beth Jones, Geraint Vaughan, Gwen Aaron, John S.Davies, Simon Moffett, Susan Wyn Jones, Eleri Pryse, Phil Williams, Rhodri Evans, Sian Owen.

Mae croeso i unrhyw gyfraniadau, llythyrau etc.

STORI EINSTEIN

Gelwir y flwyddyn 1905 yn flwyddyn wyrthiol. Ni welwyd blwyddyn debyg iddi ers i Newton wneud ei ddarganfyddiadau ynglŷn â disgyrchiant, golau a mathemateg. Ond pwy oedd tu ôl i ddarganfyddiadau pwysicaf y ganrif, a ddaeth i'r amlwg y flwyddyn honno?

Yn nechrau'r ganrif 'roedd Almaenwr ifanc yn teithio trwy ogledd yr Eidal wedi iddo gael ei argymhell i adael yr ysgol oherwydd fod ei gwestiynu cyson yn tansellio rheolaeth y dosbarth. Yn ystod y cyfnod yma catodd amser i feddwl am atebion i gwestiynau a oedd yn ei boeni. Ei enw oedd Albert Einstein a newidiodd ei syniadau y byd.

Enw theori Einstein yw "theori perthnasedd" (*theory of relativity*). Ond er bod llawer o bobl yn gallu adrodd yr hataiadau enwog, $E=mc^2$ (ble mae 'E' yn cynrychioli egni, 'm' y mas ac 'c' gyflymdra golau), mae llawer llai'n deall beth mae'n ei olygu. Gofyna'r theori yma i ni edrych ar ein byd mewn ffordd wahanol, drwy ddefnyddio'r dychymyg. Mae dychymyg yn bwysig iawn i wyddoniaeth, yn aml iawn fe ymddengys syniadau gwyddonol yn rhyfedd i ni ac mae angen tipyn o ddychymyg i geisio eu deall.

Ydych chi erioed wedi eistedd ar drên mewn gorsaf gyferbynnau a thrên arall ac wedi meddwl eich bod yn dechrau symud cyn sylweddoli mai'r trên arall sy'n gadael? Am ennyn nid ydych yn siwr aitch tŷen chi ynla'r trên arall sy'n symud. Yr unig beth yr ydych chi'n siwr ohono yw fod un tren yn symud yn berthnasol i un arall. Syniad Einstein oedd na allwch chi fesur rhai pethau'n uniongyrchol dim ond mewn perthynas â phethau eraill.

Yn ôl theori Einstein ni allwn deithio'n gyflymach na chyflymtra golau (mae awyren gyflym fel Concord yn teithio tua 800,000 o weithiau'n aratach na chyflymtra golau) ac mae cyflymder golau yn gyson, mewn gwactod, dim ots sut mae'n cael ei fesur!

Ond wrth i ni ddechrau arsylwi rhywbeth sy'n agosau at y cyflymtra yma bydd pethau rhyfedd iawn yn dechrau digwydd. Bydd amser yn dechrau arafu. (Gwyddom fod clociau cywir iawn ar awyrennau sy'n teithio yn colli amser mewn cynharfaeth a rhai sydd yn aros ar y ddaear.) Bydd pethau'n ymddangos fel petaent yn mynd yn drymach e.e. mae adweithiau niwclear, ble mae gronynnau yn teithio'n gyflym ofnadwy, wedi eu hadeliadu er mwyn caniatáu newid yn y mas. Hefyd byddai'n ymddangos fel petai'n fyrrach!

Ond wyddoch chi fod gan theori Einstein yr ateb i gwest y diwydiant cosmetig sydd am ein cadw ni i gyd yn fythol ifanc? Dychmygwch eich bod yn mynd ar daith mewn roced gyflym a'ch ffrind gorau'n aros ar y ddaear. Pan fydddech chi'n dod yn ôl i'r ddaear byddai eich ffrind wedi heneiddio ond bydddech chi'n edrych mor ifanc ag erioed. Pam?

Oherwydd fod amser, yn ôl theori Einstein, yn mynd yn aratach pan ydych yn teithio yn agos at gyflymtra golau. Hynny yw am bob blwyddyn y byddai eich ffrind wedi ei threulio ar y ddaear dim ond rhai munudau fyddai wedi mynd heibio yn y roced!

Un o'r syniadau eraill a gynigiodd Einstein ac a newidiodd y

ffordd yr ydym yn edrych ar y cyfanydd oedd ei syniad fod golau yn teithio mewn pacedi neu "cwanta". Mae hyn yn golygu fod gan olau briodweddau tonnu a gronynnau. Cyn yr amser yma 'roedd pobl yn meddwl fod yn rhaid i olau ymddwyn unai fel ton neu fel gronyn. Mae ymddygiad golau felly'n debyg i berson sy'n gallu chwarae dau rôl, e.e. bachgen sy'n tab ac hefyd yn ddisgybl ysgol.

Mae theori Einstein hefyd yn ymestyn syniadau Newton am ddisgyrchiant. Mewn termau syml mae'r theori'n dweud fod mas gwrthrych yn crymu'r gotod o'i gwmpas fel bod gwrthrychau eraill, hyd yn oed golau, yn cael eu plygu o'u cwrs gan y gotod sydd wedi cael ei antffurfio. Felly gall golau gael ei blygu gan ddisgyrchiant ac nid yw bob amser yn wir fod golau yn teithio mewn llinellau syth. Mae hyn yn engrhaifft dda o sut mae ein syniadau am wyddoniaeth a'r byd o'n cwmmpas yn cael eu newid trwy ddarganfyddiadau newydd ac yn y modd yma mae cynnydd yn cael ei wneud.

ymlaen i dud.5.....

ORIMULSION

Fel mae'r diwydiant glo yng Nghymru yn dirwyn i ben rhaid i ni ddod i arfer â chynhyrchu trydan o amryw o ffynhonnellau gwahanol. Ar yr olwg gyntaf, rhy hyn gyffe i ni symud tuag at ddulliau adnewyddol, glan o gynhyrchu trydan - bu sylw mawr ers blyneddodedd i beryglon glaw asid a'r effaith tŷ gwyr sy'n deillio o losgi glo. Eithr fel y dengys yr erthygl hon, nid yw pob cwmni cynhyrchu'n gweld y cyfle yn yr un modd.

Mae gennym eisioes ddiwydiant niwclear, sy'n un glân o safbwynt gollwng nwyon i'r atmosffer, ond gyda'r holl broblemau â gwastraff ymbelydrol pur anhebyg y gweilwn dwf yn y diwydiant hwn am flynyddoedd lawer. Er bod cynlluniau uch-elgisol i adeiladu ffermydd o felinau gwynnt mewn sawl man yng Ngorllewin Cymru, cyfran technolaw yn o'r trydan sydd ganddom ei angen a fedrwn ei gynhyrchu fel hyn. Byddwn yn dal i ddibynnu ar losgi tanwydd - ond lle bu glo'n deyrn ers blyneddodedd bydd mwy o losgi ar olew, nwy a thanwydd eraill. Gellid dadlau fod olew a nwy yn rhy werthfawr i'w llosgi mewn pwerdai (a bod ganddom taint tyrnwn o lo ar gael) ond mae dadl o'r fath yn rhy gymhleth i addolwyr unllwygeidiog y Farchnad Rydd.

Un tanwydd sydd dan sylw gan National Power ar gyfer eu pwerdy ym Mhenfro yw stwff o'r enw Orimulsion. Daw hwn o Venezuela yn Ne America mewn ffurf tar o fitwmen wedi'i w gymysgu â dwf. Fe'i llosgi fel olew, a thbia'r cwmni ei fod yn rhatach nag olew ac yn rhoi mwy o wres na glo. Nid yw'r tanwydd hwn dda i ddim ond i'w llosgi mewn pwerdai, ac felly gallai helpu i atbed olew. Yn antffodus, nid yw mor syml â hynny! Y mae cyfran uchel iawn o swiffwr mewn orimulsion (i fyny at 2.9%), a phan losgir y tanwydd newidwr hwn i nwyon sy'n gyfrifol am law asid. Byddai llosgi'r tanwydd hwn ym Mhenfro'n achosi cynnydd mawr mewn glaw asid dros uch-elidiroedd canolbarth Cymru, lle mae difrod telly i'r amgylchedd eisioes yn amlwg.

ymlaen i dud.5.....

GOLYGYDDOL


Gyda cylchgrawn gwyddonol Gwasg Prifysgol Cymru, Y GWYDDONYDD, yn awr yn ei ddegfed mlynedd ar hugain ag ATOM wedi bod yn ymddangos am burn mlynedd daeth yr amser i ddatblygu'r patrwm cyhoeddiadau gwyddonol a thechnolegol yn y Gymraeg ymhellach. Derbyniodd centhedlaeth o ddisgyblion ysgol addysg wyddonol drwy gyfrwng yr iaith. Ymddangosodd nifer dda o gynhoeddiadau a gwersi'ftrau ar eu cyfer. Ond dipyn yn academaidd yw pwsyls Y GWYDDONYDD wedi bod, o reidrydd. Mae angen cyhoeddiad o'r saton hwmnw yn Gymraeg, a teg yma yw talu teyrnged i'w olygydd ers iddo ymddangos o'r wasg, Yr Athro Glyn O. Phillips. Sicrhodd fod saton uchel i'r cylchgrawn, a bu cyfraniad Gwasg y Brifysgol yn fawr wrth ei gynnal.

Ond bellach gwelir fod bwlich mewn cyhoeddiadau cyfoes yn y Gymraeg yn y cyd-destun gwyddonol a thechnolegol. Catwyd CYNEFIN yn ymddin a materion amgylchydol a byd natur. Dilyniwyd hwmnw gan DAN HAUL, ac mae cyfraniad y cylchgrawn hwmnw yn un pwysig. Ond does na ddim i'w gael ar y lefel 'boblogaidd' yn ymddin â phynciau gwyddonol a thechnolegol ar yr un lefel. Gwnaed penderfyniad dewr gan Wasg y Brifysgol felly i iansio cylchgrawn newydd yn y maes hwn. DELTA fydd ei enw a bydd y rhifyn cynta yn ymddangos tua diwedd 1993. Bydd Y GWYDDONYDD yn parhau fel cyhoeddiad mwy academaidd unwaith y flwyddyn.

Bydd ATOM yn dal i ymddangos, ac mae'n anorffod y bydd cysylltiad agos rhwng y papur hwn a'r cylchgrawn DELTA. Gobeithiwn y byddwch chi, ddarlennwyr ATOM, yn prynu DELTA ac yn cael blas arno. Bydd ynddo amrywiaeth o erthyglau/eitemau a newyddion ynddo yn ymddin a phob maes technolegol a gwyddonol. Trafodir materion yn ymwneud â chyfrifiaduron, er enghraifft, yn rheolaidd. Gobeithir, o byrd i'w gilydd, gynnwys atodiad o feddalwedd cyfrifiadur addas hefyd. Mae'r tîm sy'n paratoi DELTA eisoes ar waith, a croesawir unrhyw sylwadau neu gyfraniadau i'r cylchgrawn. Cysyllter â Golgydd ATOM ar y cyfeiriad isod, neu Gwasg y Brifysgol.

Croesawir pob cyfraniad, yn lythrau neu erthyglau. Yn ddefnyddol dylai erthyglau fod ar ffurf ffeiliau textar ddisg MS.DOS.

Iolo ap Gwynn,
Adran y Gwyddorau Biolegol,
Adelaid Edward Llywyd,
Prifysgol Cymru - Aberystwyth
Tel:0970 622324 Facs:622350
'E-mail': iag@uk.ac.aber



"Dydy o ddim yn bwyta digon o sglodion!"

COELION GWRACH Y GEGIN

Faint ohonoch chi sy'n chwythu ar eich cawl er mwyn ei oeri, neu'n brysio i gau drws y poply er mwyn iddo gadw i wres? Ydych chi erioed wedi oedi i ystyried pam? Mewn sawl maes, mae rhyw goelion gwrach yn dal i ddyllanwadu ar y ffordd rydym ni'n mynd ati i'wneud pethau, ond mae'r gegin yn labordy naturiol sy'n cynnig gwriedd o gwestiynau ac atebion i'r sawl sydd a meddwl gwyddonol - neu i rywun sydd ond ychydig yn chwllfrydig. Yn wir, fe aeth un dyn ati i geisio profi, neu wrthbrofi, yr holl syniadau (di-sail?) yma sy'n dod yn ail natur i ni bellach.

Yn nyddiau prifysgol y datblygodd diddordeb Harold McGee mewn bwyd, wrth iddo helpu ei ddarpar wrraig i'wneud gwaith ymchwil ar ffa. Ers hynny mae o wedi tyrru ei gegin yn ddarnau mân!

Wrth weld pobl yn chwythu ar gawl poeth i'w oeri, aeth ati gyda thermomedr a stopwats i chwythu ar lwyieidiau o ddwr berwedig i weld a oedd yn oeri ai peidio. Y casgliad? Bydd, fe fydd eich cawl yn oeri wrth i chi chwythu arno, ond dim llawer os yw'n gawl twchus.

A beth am rysait traddodiadol *mayonnaise* (sy'n drafferthus ar y gorau - heb son am fynd ati i arbrofi ymhellach)? Yn ôl yr hen goel, bydd un melynwy yn gallu amsugno un llong cwpan o olew. Cantu Harold y gall un melynwy, gyda digon o ddwr, amsugno hyd at 100 llong cwpan o olew!

Y tro nesat y byddwch chi'n brysio i gau drws y poply ar ôl cael cip ar y gacen ffirwythau, ystyriwch un arall o'i ddarganfyddiadau. Hyd yn oed os gadewir drws y poply ar agor am dros funud, ar ol ei gau bydd y tymheredd yn codi'n ôl cyn pen munud arall. Y casgliad? Peidiwch a rhuthro.

Fyddwch chi'n rinsio madarch dan y tap ynteu'n dilyn y drefn o'u sychu'n ofalus gyda chadach llaitin, rhag iddyn nhw fynd yn rhy ddyfrllyd? Wedi pwyso madarch a'u mwyrdo nhw mewn dwr am dros bum munud, dyrna ganfod mai dim ond 1/16 o llong llwy de o ddwr yr oedd y madarch wedi'i amsugno. O hyn allan, golchwich nhw dan y tap yn gwbwl dawel eich meddwl.

A beth am y rhai sy'n tyngu mai rhwygo letys a llaw yn hytrach na'u torri â chylllell sydd orau? Cleisio'r ddeilen tydd cylllell, medden nhw. Prynwyd letisen. Rhwygwyd ei hanner a thonyd y gweddill i chylllell. Ymhen tridiau, achubwyd y letisen druan o waelod yr oergell. Roedd y ddau hanner yn edrych "yn union yr un fath".

Etdyn hyn, mae Harold McGee wedi casglu digon o ffeithiau i lenwi dau lyfr (*On Food and Cooking* a *The Curious Cook*, *Harber Collins*). Ymysg y ffeithiau annisgwyl y mae eglurhad dros llw'r cig mewn brestiau da plugo (mae cig brest cywion ielfr a thycrown yn wrn, ond mae cig brest gwyddau ac atir'n dywyll). Y rheswm am hyn yw bod cyhyrau sy'n cael eu

ymlaen i dudalen 6...

CYHOEDDIR ATOM GAN Y GYMDEITHAS WYDDONOL GENEDELAETHOL GYDA CYMORTH ARIANNOL GAN Y SWYDDFA GYMREIG. CYSDODIR AR GYFRIFIADUR AC ARGRAFFIR GAN Y LOLFA, TALYBONT, DYFED.

Y GALON

Mae Cymru wedi datblygu enw da fel un o brif ganolfannau'r byd ar gyfer ymchwil i afiechydon y galon. Yn anffodus, mae hi hefyd yn agos i frigg y rhestr ryngwladol o ganran y boblogaeth sy'n dioddef afiechydon y galon:

- * mae gan un o bob 100 o fabanod a gaiff eu geni nam ar y galon;
- * mae un o bob 10 o wragedd yn eu 50au yn dioddef o afiechyd y galon;
- * mae un o bob 10 o ddynion yn marw o afiechyd y galon cyn oed ymdeoli;
- * bydd dros 10,000 o bobl yng Nghymru yn marw o afiechydon y galon eleni.

Wythnos olaf mis Mawrth eleni lansiodd rhaglen HENO (S4C) apel arbenig ar gyfer codi arian tuag at "Sefydliad Syr Geraint Evans Dros Ymchwil y Galon yng Nghymru", elusen sydd yn cael cefnogaeth lwyr Sefydliad y Galon ym Mhrydain (*British Heart Foundation*). Y bwriad yw adeladu'r sefydliad ar satle Ysbyty Athroaol Cymru yng Ngae'dydd fel rhan o Goleg Meddygaeth Prifysgol Cymru. Bydd hyn yn galluogi dod a gweithwyr ymchwil at eu gilydd a sicrhau bod ymchwil i afiechydon y galon yma yng Nghymru yn cael ei gynnal a'i ddatblygu i'w botensial llawn. Mae ymchwil felly yn ganolog i geisio atal, canfod a thrin un o achosion mwyaf cyffredin marwolaeth ac anabledd.

Beith felly yw rhai o'r afiechydon yma y mae ymchwil eisoes wedi bod o gynorthwy i'r dioddefwyr, ac y mae gan ymchwil le parhaus i geisio gwell ansawdd bywyd i'r rheini sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef.

Afiechyd y galon gydenidigol (*congenital heart disease*) Mae datblygiad anafterol o'r baban yn y groth (e.e. o ganlyniad i'r Frech Goch Almaenig neu wenwyn cemegol yn ystod beichiogwyrdd) yn medru peri nam yn y galon neu'r pif bibellau gwaed. Y nam mwyaf cyffredin hwyrach yw tyllau yn y wal sy'n rhannu ochr dde ac ochr chwith y galon.

Anwadalwch rhythm (*arrhythmia*) Mae curiad calon normal yn cychwyn pan fo arwydd o gelloedd arbenig yn y galon (celloedd rheoliadur) yn cael ei throsglwyddo yn gyflym iawn dros y galon fel bo celloedd y cyhyr yn derbyn y neges ar yr un pryd ac felly'n cywasgu eto i gilydd. Weithiau fodd bynnag, bydd afiechyd yn taro'r llwybrau trosglwyddo. Gall hyn arwain at y galon yn curo yn rhy gyflym (chwimguniad y galon (*tachycardia*)) neu'n rhy araf (hwyguriad y galon (*bradycardia*)) i fod yn gyfforddus.

Afiechyd failt Mae yn y galon nifer o falliau un-ffordd sy'n rheoli rhesiad y gwaed o un siambr o'r galon i un arall. Gall afiechydon o'r falliau beri i un neu ragor fethu agor cymaint ag y dylent neu fethu cau. Oes nad yw'r failt yn agor fel y dylai, rhaid i'r galon withio'n galetachi i gael gwaed drwyddi. Os nad yw'r failt yn cau yn iawn, yna rhaid i'r galon withio dwywaith cymaint o waed drwyddi gan y bydd hanner ohono'n llifo 'nol drachefn. Rhwydd hyn bwysau ychwanegol ar y galon ac yn y pen draw, gall arwain at fethiant y galon.

Methiant y Galon (*heart failure*)

Gall rhai afiechydon wanbau cyhyr y galon yn uniongyrchol - "cardiomyopathy". Gall colli gormod o gyhyr o ganlyniad i drawiad ar y galon, neu odod pwysau ychwanegol ar y galon megis adeg afiechyd failt, hefyd wanbau'r galon. Yn y pen draw, gall hyn arwain at fethiant y galon gan beri effeithiau ol-bwysedd yn yr ysgyfaint a phrinder anadl.

Afiechyd y rhydweliâu coronaidd (*coronary artery disease*)

Un o brif beryglion i'n hiechyd ni heddiw yw afiechyd sy'n daweiddatblygu dros nifer o flynyddoedd cyn iddo beri problem - "atheroma" o'r rhydweliâu. Mae dyddodion brasterog yn cael ei osod i lawr o fewn leinin mewnol y rhydweliâu dros gyfnod o amser. O ganlyniad:

- (i) bydd y rhydweliâu yn culhau, a'r rhai lleiaf yn cau;
- (ii) bydd arwyneb mewnol y rhydweliâu (sydd fel rheol yn llynn) yn cracio, gan beri i'r gwaed geulio (*thrombosis*) fel y gwna o ganlyniad i glwyf allanol; neu
- (iii) gwanheir wal y rhydweli cymaint nes eu bod yn rhoi a gwaedu (gwaedlif (*haemorrhage*)).

Pan to "atheroma" yn effeithio ar rydweliâu'r ymennydd mae'n peri strôc; pan yn effeithio ar rydweliâu'r galon gall beri poenau yn y fron ("angina") neu tarawiad ar y galon.


"Angina"

Pan fo galw ar y galon i weithio ychydig yn rhagor, e.e. adeg ymarfer corfforol neu cynnwrf, amae arni angen rhagor o ynni (ac ocsigen). Yn arterol digonir yr angen yma wrth i rhesiad y gwaed drwy'r rhydweliâu coronaidd gynhyddu. Ond, os oes yna "atheroma" yn un o'r rhydweliâu, mae'n debyg na chaiff rhan o'r galon ddigon o'r gwaed ychwanegol. Golgya hyn fod diffyg gwaed dros dro yn y cyhyr a gall poen ddatblygu fel rhybudd. O leinai'r angen an waed ychwanegol e.e. drwy ortfws, mae'r poen yn gwella a'r cyhyr yn dychwelyd i normalwydd.

Tarawiad ar y galon

Pan fyddir yn son am drawiad ar y galon, yr hyn sydd dan sylw yw bod rhydweli coronaidd yn cau'n sydyn. O ganlyniad i'r ffaith na fydd y rhan o'r galon a ddylasai gael ei chyflenwi a'r rhydweli arbenig yna mwyach yn derbyn digon o waed (os o gwbl) ceir poen, tebyg i "angina", ond mewn trawiad, nid yw'r boen yn gwella wedi gorffwys. Os na chaiff waed, bydd cyhyr y galon yn marw.

Dyna rai o afiechydon mwyaf cyffredin y galon. Mae ymchwil eisoes wedi sicrhau bod triniaeth a chyffuriau ar gael i ledftu nifer o'r afiechydon, ond mae llawer o waith i'w wreud eto er mwyn ceisio deall achos a pheilianwaith yr afiechydon.




"Mae o ar ddeiet fibr uchel!"

La Tour Eiffel

Oeddech chi'n gwybod fod y Twr Eiffel yn tyfu 15cm ar gyfartaledd rhwng canol gaeaf a chanol haf? Y rheswm am hyn yw wrth gwrs y newid mewn tymheredd rhwng y tymhorau. Pan mae'n boeth mae metel y twr yn ehangu a phan aiff yn oer mae'r metel yn cyfangu. Pob gwanwyn telly bydd y Twr Eiffel yn cychwyn ar ei chylchdaith blyneddol o ymchwydd a chrebachiad tra'n cyflawni ei mynych glychdeithiau dyddiol yn cartio llwythi o dwristiaid yn ei lifftiau i fyny i'w brig ag i lawr drachefn.



Mae'r rheswm pam fod metelau ac yn wir pob solid yn ehangu wrth eu cynhesu yn ddiddorol. Astudiwch y graff sy'n dangos yr egni potensial sydd wedi ei ystori rhwng dau toleciwl E_p yn eibyn y peller rhwng y ddau r . Mesurir yr egni mewn jouleau (J) a'r peller mewn metrau (m). Gyda llaw, mae gwyddonwyr yn defnyddio llythrennau fawr, **J**, fel taliariad pan ei fod yn cyfeirio at uned sydd wedi enwi er cof am ddim, yn yr achos yma **James Prescott Joule**, a llythrennau fach i unedau eraill fel metrau. Brai iawn yw talu teyrnged i wyddonwyr y goffennol trwy eu anrhydeddu fel hyn. Mae ffisegwyr yn gwneud llawer o ddefnydd o unedau megis **newtonau**, **N**, **watiau**, **W** a **jouleau**, **J**.



I fynd yn ôl at y graff, mae'r egni potensial yn cyrraedd is-atbwynt pan to $r=r_0$. Dyma waedol y pydew egni pan fo'r grymoedd ar y moleciwl yn gydbwys a phan fo'r moleciwl yn berffaith llongydd ar dymheredd sero absolwt. Mae'r graff yn codi o bobtu'r pydew ond sylwer nad yw'n gymesur ar y ddwy ochr. Mae'r ochr dde yn gwyro allan yn fwy na'r ochr chwith sy'n fwy serth. Wrth i'r tymheredd godi o sero absolwt (set -273°C), mae'r moleciwl yn derbyn egni thermal sy'n ei alluogi

atom


...ymlaen i dudalen 8.....

Parhad o 'Y GLEC FAWR' (Tud 7)....

Mae tystiolaeth o blaid y Glec Fawr yn gryf. Yng nghanol y chwedegau darganfyddwyd signal gwan a oedd yn dod o bob cyferiad yn yr awyr. Sylweddolwyd y buasai'r Glec Fawr wedi gadael atsein yn union debyg, ac mae tymheredd y signal yn cytuno a'r tymheredd a ddisgwyllir. Hefyd mae'r canran o elfennau megis Helium a Deuterium yn y bydysawd yn cytuno'n dda iawn a'r model rydym wedi ddatblygu o sut yr esblygodd y bydysawd.

Parhad o 'STORI EINSTEIN' (Tud 2).....

Well Dyna i chi syniadau. Mae angen tipyn o ddychymyg i'w deall nhw ond mater o feddlw am bethau mewn ffordd wahanol yw hi. Mae'n amlwg fod Einstein yn fathgen chwylltrydig iawn (rhywbeth y dylai ei athrawon fod wedi ymylaleiddio ynddo). Catodd ei gydnabod fel athrylith mawr yn ystod ei oes ac 'roedd ei gyd-ddynion yn barod i wrando ar ei gyngor. Er enghraifft, 'roedd yn gwrthwnebu rhyfel (a oedd yn ei alw yn afiechyd plentyndod) ond yng ywneb bygythiad y Natsiaid ymwrthododd â heddychiaeth ac awgrymodd i'r Unol Daleithiau (ble 'roedd wedi ymgartrefu) ddyleisio'r bom niwclear. Ond cyn i'r bom cyntaf gael ei ollwng ar Hiroshima 'roedd yn rhybuddio'r byd o beryglon rhyfel niwclear ac yn ceisio cael rheolaeth ryngwladol ar arfau niwclear. Ar ôl y rhyfel gwahoddwyd ef i arwain gwlad newydd Israel o'r gwrthododd y cynnig gan ddweud fod hatfaliadau yn bwysicach iddo na gwleidyddiaeth.




Parhad o 'ORIMULSION' (Tud 2).....

I fod yn deg â'r Venezuelaidd, nid ydynt hwy'n disgwyl i ne losgi'r orimulsion heb ffitio offer trin swiffwr i simde'r pwerd. Wedi'r cyfan, mae'r dechnoleg yn syml ac yn barod wedi' ffitio i rai pwerdai glo yn Lloegr. Mae gan gymmniau pŵer y America a Chanaada gynlluniau i losgi'r tanwydd, a byddai hwy yn naturiol yn ffitio offer dad-swiffwrio. Ond nid oes unrhyw arwydd fod National Power yn bwriadu gweithrecc felly ym Mhentro - byddai glanhau'r mwg yn 'rhy ddrud'!

Yn dilyn cyhoeddi cynlluniau National Power, bu protest brwd yn eu herbyn gan lawer o fudiadau amgylchydol yr Nghymru. Yn ddiweddar cyhoeddodd y cwmni eu bod a adolygu eu polisi gogyfer â phwerdy Pentro, a'r gobaiith y awr yw y byddant un a'i'n rhoi gorau i losgi orimulsion neu y ei losgi mewn modd cyfrifol - h.y. yn glanhau'r nwyon asid allan o'r mwg. Mae'r neges yn syml - os ydym am gac satonau glanweithdra yn yr-amgylchedd rhaid i bob i ohonom fod ar ein gwyliadwriaeth.

AWRORA BOREALIS

Mae ysblander goleuadau'r gogledd neu'r awrora borealis wedi swyno cenedlaethau lawer. Yn yr oes bresennol mae prydferthwch digyfelyb y goleuadau wrth iddynt ddawnsio ar draws yr wybren yn creu rhyfeddod arswydus.



Cânt eu gweld gan amlaf yng ngwledydd y gogledd, megis Norwy a Sweden, ond o bryd i'w gilydd lledaeniant tua'r de a gellir eu gweld o Gymru. Bu damcanu brwd ar draws y cantirfoedd am yr hyn a achosai'r awrora, a daethant yn ran anatod o lén gweirín. Mae sôn tor yr Esgimo wedi eu cysylltu ag ysbrydion y meirwon yn chwarae pel droed a phenglog walrws.

Rhwng y bymthegfed a'r ddeunawfed ganrif tybiwyd eu bod yn blaenoi marwolaeth brenin. Daethant hefyd yn toddi i ddarogan rhyfeloedd ac yn toddi i rybuddio pobl i editarhau a chywiro eu ffyrdd. Bu i William Williams, Pantycelyn, ryfeddu at y goleuadau a cheir disgrifiad byw ohonynt yn ei ysgrif *Aurora Borealis* neu *Y Goleuni yn y Gogledd*: "Am ddeg o'r gloch o nos neithiwr, y gwelais i, a myrddiwn gyda mi, 'twyn coello, un o'r rhyfeddodau mwyaf ag a welodd neb erioed yn natur..... Fe'm gwahoddwyd allan o'm ty gyda brys a dychryn; yr oedd yr holl wybr yn goch, yn laswyn, yn feilyn, yn ddugoch, ac yn rhudd: o liw gwaed, o liw'r wawr, o liw porffor, ac o liw'r amber; holl liwiau'r enfys; ac yn gyffelyb iddo gyda hyn o wahaniaeth, fod yr holl wybr yn dawnsio, ac yn chwarae trwy eu gilydd....." Yn wir gwyddai'r Pér Ganieddydd am theoriau'r cyfnod am yr awrora, a noda "Rhai a geisiant ddywedyd mai'r gelyddyd newydd o *electricity* sydd yn dehongli'r peth orau....".

Gwyddom erbyn hyn fod yr awrorau wedi'u lleoli tua 60 milltir i'fyny o wyneb y Ddaear, yn rhan drydanol o'r atmosffer. Mae eu tarddiad hyd yn oed ymhellach, draw ar wyneb yr Haul.

Mae atmosffer yr haul mor boeth fel ei fod yn "berwi i ffwrd" ac achosi gwynt cryf i chwythu o'r haul ar gyflymder uchel dros ben. Pan gythaedda'r "gwynt solar" y Ddaear trosglwyddir peth o'i egni i faes magnetig y Ddaear a pheri i'r maes gael ei estyn fel catapwl. Pan ryddheir y catapwl caiff Gronnyrau eu cyflymu tuag at yr atmosffer lle y maent yn achosi'r goleuadau.

6Dysgwyd cryn dipyn am yr awrora yn ystod y blynyddoedd

diwelhaf, ond mae llawer o ddirgelion yn dal ar ôl i'w datgelu. Defnyddia Adran Ffiseg, Prifysgol Cymru Aberystwyth, radar Ewropeaidd yng ngogledd Llychlyn i astudio'r than drydanol yma o'r atmosffer. Caiff signalau radio eu trawsyrru i'fyny i'r atmosffer o Tromsø yng ngogledd Norwy, a derbynir y signalau sy'n dychwelyd tua'r Ddaear yn Tromsø, ynghyd a Kiruna yng ngogledd Sweden, a Sodankylä yn y Ffindir.

Yn diweddar bu datblygiad cyfiroes i'r project Ewropeaidd, pan gytunodd chwe gwlad gan gymrwys Prydain i adeiladu ail radar i astudio'r atmosffer drydanol. Bwriedir ei leoli yng nghyffiniau Pegwn y Gogledd ar ynysoedd Svalbard; yr ynysoedd y bu i Michael Palin ymweld a hwy ar ddechrau ei daith-deledu o Begwn y Gogledd i Begwn y De.

..parhad o 'Goelion Gwrach y Gegin' (Tud. 3)
defnyddio'n anaml yn olau - ac anaml y bydd tyrcwn a chywion ieir yn hedfan.

A dyma ambell beth arall i gnoi cil arno pan fyddwch chi'n y gegin nesat. Ar dymheredd o 8°C y bydd bara'n llwydo gyllymat. Felly, cadwch eich bara ar dymheredd ystafell. neu yn y rhewgell - ond ddim yn yr oergell! A bydd dŵr mewn sosban yn berwi'n gynt os oes caead ar y sosban, ond dim ond gosodir y caead arni ar ôl i'r dŵr gyrraedd 65.5°C.

Dyna rai o ddargafyddiadau Harold McGee, ond beth am gasgliad Cymreig o esboniadau i goelion gwrach y gegin? Rwy'n siwr fod digon o gwestiynau'n codi. (Mae ffrind i mi yn tyngu na chaiff hi byth lwmp mewn cwtard os bydd hi'n cofio troi'r llwy yn groes i'r cloc...!).



**Y Gymdeithas
Wyddonol
Genedlaethol**

Beth am ymuno yn y Gymdeithas er mwyn hyrwyddo trafod gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg? Mae pob aelod yn derbyn copi o'r GWYDDONYDD a DELTA.

Mae canghennau o'r Gymdeithas Yng Ngwynedd, Clwyd, Abertawe, Caerdydd ac Aberystwyth. Gwiliwch y wasg a'r cyfryngau am hysbysiadau i'r cyfarfodydd.

Cyhelir cynhadledd flynyddol y Gymdeithas bob Mis Ebrill.
**Cysyllter â Dr Geraint Vaughan,
Adran Ffiseg, Prifysgol Cymru, Aberystwyth
am fanylion pellach.**

DEIET OES Y CERRIG

gan Simon



MAE FITAMIN A YN LLESOL I'R LLYGAID



MAE FITAMIN B1 YN LLESOL I'R GALON



MAE FITAMIN B2 YN LLESOL I'R GWALLT



MAE FITAMIN D YN LLESOL I'R ESGYRN



MAE FITAMIN E O GYMORTH I IACHAU BRIWIAU

CEWCH RAGOR O WYBODAETH AM FITAMINIAU DRWY DDARLLEN LLYFR EIRWEN GWYNN "BWYTA I FYW" cyhoeddwy'r: Gwasg y Sir



Er bod storïr Beibl yn sôn am y greadigaeth, y gred ar ddechrau'r ganrif hon ym mysg seryddwyr oedd fod y Bydysawd yn bodoli heb ddechreuad iddo, a'i fod yn aros yn ddiagrynewid dros amser. Un o'r rhesymau am greu hyn oedd nad oedd unrhyw dystiolaeth fod perthau yn, na wedi, newid.

Yn tuan ar ôl ei ddamcaniaeth o ddisgyrchiant a elwir 'The General Theory of Relativity', canlyddodd Einstein fod ei hataliadau yn darogan y dylai'r bydysawd fod yn ehangu. Am nad oedd unrhyw dystiolaeth ar y pryd fod y fath beth yn digwydd fe ddaeth a chysynyn i fewn i'w hataliadau er mwyn iddynt roi'r ateb 'cywir' fod y bydysawd yn statig. Doedd dim llawer o sail i'r cysynyn hwn, ond catodd ei fabwysiadu er mwyn i'r hataliadau gyluno a'r arsylladau a oedd yn bodoli ar y pryd.

Ym 1929 dargatfyddodd Hubble nad oedd y bydysawd yn statig o gwbl, ond bod pob galaeth yn symud i ffwrd o'n galaethni gan fod y bydysawd cyfan yn ehangu. Ar ôl clywed y newyddion hwn mae'n debyg i Einstein gyfradderf mai mabwysiadu'r cysynyn yna oedd camgymeriad mwyaf ei fywyd. Gallai fod wedi darogan yr ehangiad rhyw ddeg mlynedd cyn Hubble petasai wedi bod yn ddigon hyderus i greu ei hataliadau gwreiddio.

Ar ôl darganfyddiad Hubble o ehangiad y bydysawd, cam naturiol oedd sylweddoli y gallai'r bydysawd fod wedi dechrau mewn un ffrwydriad tawr, Y Glec Fawr, rhywbryd yn y gorffennol. Heddiw credwn fod y Glec Fawr wedi digwydd rhwng 10 a 20 biliwn o flynyddoedd yn ôl. Mae'r amhendantwydd yn deillio o'n hanallu i fesur y cysynyn Hubble yn gywir iawn. Mae cysynyn Hubble yn cysylltu pa mor gyflym mae rhyw alaeth yn symud i ffwrd oddi wrthym, a pha mor bell i ffwrd mae'r alaeth. Er fod mesur y cyflymder yn ddigon hawdd a chywir, mae mesur y pellter yn anodd dros ben.

Er fod llawer o bethau yr ydym yn ddeall am y bydysawd cynnar a'i esblygiad, mae yna un cwestiwn na wyddwn yr ateb iddo o gwbl ar y foment, sef beth yw ffawd y bydysawd. Un posibilrwydd arall yw y bydd y bydysawd yn ehangu am byth, posiblirwydd arall yw bod digon o fater yn y bydysawd i'w achosi i gywasgu. Mae seryddwyr yn gobebithio cantod yr ateb i'r cwestiwn hwn yn ystod y 10 i 20 nesaf.

yn ôl i dud.5.....

Y GWYDDONYDD

Os ydych am ddarllen am y datblygiadau diweddaraf mewn gwyddoniaeth yna mynnwch gopi rheolaidd.

PYNCIAU A DRAFODWYD YN DDIWEDDAR:

Datblygiadau mewn milfeddysgaeth; Ymchwili Bioleg Molecylaidd; Y Blaned Mawrth; Rhwydweithiau Niwral; Rheoli Biolegol; Antffurdedd Rhisiart III - Llygredd Chernobyl; Llwyth Pinatubo; Ffosiliau.... a llawer mwy!

Parhad o La Tour Eiffel (Tud 5)

i ddirgrynu yn ôl ac ymlaen o gwmpas si safle cydbwysedd r_o . Mewn solid mae'n rhaid i bob molecwl gadw at ei safle a hyn sy'n rhoi siap pendant i solidau. Nid yw hyn yn wir mewn hylif, felly nid oes gan hylif siap ei hunan, dim ond siap ei gynhwysydd. Rhaid i'r molecwl ddirgrynu oddi fewn i'r pydew egni ac fel mae'n cael rhagor o egni mae'n codi i fyny ynddo. Oherwydd siap y graff mae molecwl yn symud ym mhellach i'r dde nag i'r chwith bob tro, felly mae'r ar gyfartaledd yn fwy na r_o . Mae'r pellter rhwng y molecylau yn cynyddu ac felly mae'r solid yn ehangu.

Dyma ffaith arall od am y Twr Eiffel. Pan ystyriwch holl aur y byd, mae yna lawer iawn ohonno ond oes? Meddylwch am yr holl bobl farus yn ymuno a'r Rhuthr Aur California neu Seland Newydd dro ar ôl tro. Mae'n siwr iddynt gael gafael ar dipyn ohonno neu byddai neb wedi trafferthu. Yna beth am yr emynydd yn dyfalu: "Pe meddwn aur Periw"? Eto, mae'n gwneud i ni ddychmygu erwau o gyfoeth, digon i ddenu y *Conquistadores* dewr ar draws Mor yr Iwerydd i orchfygu Ymerodraeth yr Inca a gyrru aur dibendraw yn ôl gartref i Sbaen. A beth am gyfraniad aur Cymru? Erbyn hyn mae pob ffynhonnell bron wedi cael ei gloddio'n llwyr ac ychydig sydd ar ôl yn y safleoedd sy'n hysbys i ni, ond rydym i gyd yn gwybod am fodrwyau priodas aur Cymru onid ydym? Adiwech yr holl hyn, ac mae'r Ddaear wedi cynhyrchu aur ddiddiwedd medde chi. I'r gwrthwyneb! Petaech yn casglu'r holl aur sydd erioed wedi cael ei fwyngloddio o bob rhan o'r byd ac ymhob oes, ei doddi i lawr a'i ffurfio'n giwb perffaith, mi fyddai'r ciwb yn medru eistedd yn dwt o dan pedair troed y Twr Eiffel!

CYSTADLEUAETH

ENWI'R DDRAIG



ar fathodyn
Y Gywmdeithas Wyddonol
gwobr
CRYS 'T'
hardd gyda'r ddraig
arno
Ceisiadau i'r
Golygydd cyn
diwedd Medi 1993

HYSBYSEB

CRYSAU CHWYS, POLO A 'T'

I GYD GYDA'R BATHODYN UCHOD MEWN BRODWAITH

CRYS CHWYS

LLIWIAU: coch llachar, glas tywyll iawn, llwyd, glas golau, du, gwin, gwyn, glas llachar, melyn.

MEINTIAU: bach, canolig, mawr, mawr iawn ac anferth.

£19.00 yn cynnwys postio

CRYS 'T'

LLIW GWYN YN UNIG GYDA LOGO MAWR

MEINTIAU: bach, canolig, mawr, mawr iawn ac anferth (meintiau plant ar gael hefyd: holwch O.G.y Dd)

£9.50 yn cynnwys postio

(plant yn rhatach)

BRODWAITH Y BATHODYN

1. AR EI BEN EI HUN neu

2. GYDA 'Y GYMDEITHAS WYDDONOL'

Mae pob math o grysau a siwmpuri eraill, wedi eu gwneud o gotwm, gwlân a defnydd synthetig, ar gael. Os am ddilledyn arall gyda'r brodwaith arno yna holwch os gwelwch yn dda.

Sieciau yn daladwy i: 'Y Gymdeithas Wyddonol'

Danfoner y ffurflen archebu a'ch siec i'r Trysorydd, Hywel Madog Jones, Talafon, Golan, Garndolbenmaen, Gwynedd.

CRYS POLO

LLIWIAU: melyn, glas tywyll iawn, coch, du, aqua, llwyd, eog, coch tywyll, aur.

MEINTIAU: bach, canolig, mawr, mawr iawn, anferth.

£19 yn cynnwys postio

FFURFLEN ARCHEBU

STEIL: CRYS CHWYS/ CRYS POLO/ CRYS 'T' *

MAINT: BACH/CANOLIG/MAWR/MAWR IAWN/ANFERTH *

LLIW:

BATHODYN: YN UNIG / GYDA'R GEIRIAU *

* DILEIR LLE BO ANGEN

ENW: _____

CYFEIRIAD: _____

Cyffwrdd Dwy Ganrif

Dafydd Orwig efo Côr y Penrhyn yn yr America

Pan ganodd Côr Meibion y Penrhyn yn Eisteddfod Ffair y Byd yn Chicago ym Medi 1893 'yr oedd yr effaith fel trydan yn rhedeg trwy yr holl gynulleidfa', yn ôl W. D. Davies, Scranton.

Fel un o'r 28 a deithiodd gyda'r 70 aelod o Gôr Meibion y Penrhyn i Chicago ddechrau Awst eleni gallaf dystio iddynt gael yr un effaith ar eu cynulleidfaoedd nifers a'u cymrodwr ganrif yn ôl.

eitemau'r côr — ac fe dynnodd y to i lawr!

Cychwynwyd ar y gyfres o gyngherddau yn ardal y chwareli yn Poultney gyda 1,200 yn y neuadd a 200 yn gwrando oddi allan. Yno yr



Côr y Penrhyn 1893

Chwarelwyr oedd bob aelod ym 1893 ond bellach dim ond tri sy'n gweithio yn y chwarel.

Diddorol oedd deall bod taid Elfyn Roberts a Derek Griffiths — y ddau o Fethesda — a oedd ar y daith eleni yn y côr a deithiodd i Chicago ganrif yn ôl.

Rhyw saith awr yng nghyfforddus- rwydd un o awyrennau American Airlines a gymrodd y daith o Fanceinion i Chicago eleni o'i chymharu â thair wythns 'wedi eu pacio fel penwaig mewn baril' mewn llong o Lerpwl i Efrog Newydd ganrif yn ôl.

Roedd un o'r teithwyr eleni yn bur bryderus gan nad oedd erioed wedi hedfan o'r blaen. Ganrif yn ôl roedd rhai o'r hogia'n gorfod cysuro'u gwragedd drwy eu sicrhau y byddent yn dod i'r lan i gysgu bob nos!

Wn i ddim am drefniadau taith côr 1893 i Chicago ond fe wnaed trefniadau taith 1993 dros y ddwy flynedd ddiwethaf gan Idwal Jones, gŵr busnes sy'n aelod o'r côr. Bu'n hynod o ffodus yn ei gysylltiadau gyda'r Cymdeithasau Cymreig yn Poultney, Waukesha a Chicago a phwyllgorau'r Gymanfa Ganu yn yr Unol Daleithiau.

Ymysg erail yn y wlad fawr a roddodd gymorth sylweddol iddo yr oedd yr Athro Kinsman ym Mhrifysgol Connecticut yn Storrs; Jim Dineen a Richard Smith a'r pwyllgor yn Rye, ger Efrog Newydd, a Chonswl Prydain yn Boston a Chicago.

Cynhaliodd y côr saith o gyngherddau ar y daith dan arweiniad Alun Llwyd gyda Menna Leyshon yn gyfeilydd a Leah Owen yn unawdydd gwadd a Menai Williams yn gyfeilydd iddi. Cyflwynwyd yr eitemau gan John Ogwen. Cafwyd eitemau gan Ifan Bryn o Ddinorwig — ef oedd yr unawdydd mewn un neu ddau o

oedd y trydan yn y gynulleidfa ar ei gryfaf gan fod tua 400 o dras Gymreig. Cyflwynwyd cloc o lechen, gwaith Gwilym Jones, Deiniolen — sydd â'i weithdy ger yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis — i Lywydd y Gymdeithas Gymraeg yno gan Gadeirydd y côr, Dafydd Ifans, Penisarwaun.

Bu cyngherddau ym Mhrifysgol Connecticut yn Storrs ac yn yr Eglwys Bresbyteraidd yn Rye ar gyrion Efrog Newydd. Gwnaed taith o ddeunaw awr ar y tren o Efrog Newydd i Chicago a chanu yno deirgwaith — yn y Ganolfan Ddiwylliannol yng nghyffres Cyngherddau Coffa Myra Hess a'r cyngerdd yn cael ei ddarlledu, yn yr Amgueddfa Gwyddoniaeth a Diwydiant ac yn Eglwys Gadeiriol y ddinas i gloi'r daith.

Yn Chicago arhoswyd noson ym Mhentref Wales a chanu i gynulleidfaoedd yng Ngholeg Carroll yn Waukesha, ger dinas fawr Milwaukee.

Rhwng y saith cyngerdd gwefreiddiwyd cynulleidfaoedd o bron i 5,000 gan ganu corawl Cymraeg a chanu gwerin ar eu gorau. Mae'n siŵr bod presenoldeb nifer dda o hogia ifanc yn y côr yn gyfrifol am ansawdd arbennig y sain a gynhyrchir gan Gôr Meibion y Penrhyn. Roedd eu canu tawel yn swynol a'u canu mawreddog yn wefreiddiol — fel organ fawr a'r stops yn cael eu hagar.

O'r pum mil o bobl a fu'n gwrando arnom yr oedd tua mil o dras Gymreig. Roedd llawer ohonynt o ardaloedd y chwareli yng Ngwynedd.

Roedd yn braf cyfarfod ag Idwen a Helen o'r Gerlan a Cynthia o Rydaman a'u Cymraeg yn loyw a William Griffiths o Landeilo ym 93 oed ond yn rhugl ei Gymraeg. Roedd llawer o drigolion Poultney a

Granville â chysylltiadau ag ardaloedd bro'r Eco. Roedd un o brif swyddogion Cymdeithas Dewi Sant, Poultney, a'i gwreiddiau yng Nghwm-y-glo. Bu Emyr Jones, plymar o Lanrug, yn siarad ag un hen wreigan a fu drosodd ym Mrynrefail ac yn anfon ei chofion at bawb yn y pentref.

Yn Granville bu Derek a Sylvia Griffith o Fethesda yn aros efo Mr a Mrs Bob Jones — 'Bob Llanbabo' y gelwid y gŵr ac er mai yn America y ganed ei briod, Elsie, roedd yn siarad Cymraeg yn rhugl gan mai dyna oedd iaith ei mham a ddaeth yno o Dal-y-sarn ac sydd bellach yn 90 oed. Bu gwraig arall o Poultney yn holi Ann a Dafydd Ifans am Myra Bryn o Lanberis gan holi yn arw am yrfa Trystan ac Euron.

Ond yr un a roes y wefr fwyaf imi oedd merch ifanc o'r enw Mererid Roberts a adenillodd iaith ei theulu o Ddyffryn Ogwen drwy ddod ar gwr Wlpan i Fangor.

Yn ystod y daith cawsom gyfle i weld mannau o ddiddordeb cyffredinol yn amrywio o chwareli ardaloedd Poultney a Granville lle mae tua mil o chwarelwyr (mae llai na 400 yng Nghymru) i Amgueddfa Porthladd Mystic, math ar San Ffagan morwrol. Yn Efrog Newydd cawsom deirawr o fordaith o amgylch Ynys Manhattan a chyfle i weld y prif adeiladau a chyfle wedyn ar dir sych i fynd i ben adeilad yr Empire State.

Yn Chicago cawsom gyfle i fynd i ben Tŵr Sears, sef adeilad ucha'r byd bellach ac aros am bedair noson yng ngwesty moethus y Blackstone lle'r arferai Al Capone a'i giang (gan gynnwys Murry the Hump, sef

Llywelyn Morris Humphreys â'i wreiddiau ym Maldwyn) ymgasglu.

Bydd yn ddiddorol gweld fflm newydd yr Untouchables oedd yn cael ei gwneud yn y gwesty tra'r oeddem ni yno!

Ar daith fws o gwmpas ardal Wales gwelsom ffermydd Glanyrafon, Bronyberllan, Tan-y-bryn, Tanrallt a Bryn Mawr a llawer ohonynt yn dal yn nwylo Cymry. Roedd mynwentydd Tabernacl a Salem yn cael eu cadw'n hynod daclus a bron pob carreg fedd â chyfenw Cymreig. Ar arwydd-fwrdd mawr tu allan i ganolfan fach pentref Wales yr oedd dau luosog godidog, sef 'Cyfafod Lenyddols' a 'Gymanfa Ganus' yn dweud y cyfan am sefyllfa'r Gymraeg yno!

Cefais orchymyn gan Hywel Teifi pan oedd ym Methesda yn darlithio ar Eisteddfod Ffair y Byd i chwilio am luniau o'r Eisteddfod a chysylltais â Chymdeithas Hanes Chicago a Llyfrgell Harol Washington yn y ddinas. Bu Dan McCurry, gweinidog Bedyddwyr o dras Gymreig ond ar secondiad newyddiadurol am flwyddyn, yn dilyn y côr am dridiau. Mae'n bwriadu llunio tair erthygl ar y daith a bu eisoes yn darllen popeth oedd ar gael, am yr Eisteddfod ym mhapurau Chicago.


Nid oedd ffotograffau yn y wasg bryd hynny ond addawodd ymholi yn Llyfrgell y Gyngres a Llyfrgell Gutenberg. Felly, Hywel, os oes lluniau ar gael o gwbl, fe ddylent dy gyrraedd rywbryd!

'Dychwelyd' yw enw casét a chryno ddisg newydd Côr Meibion y Penrhyn y gwerthwyd cannoedd ohonynt yn ystod y daith.



Côr y Penrhyn 1993

Am eich
**ANGHENION
ADEILADU**
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am
**BRISIAU
CYSTADLEUOL**
dewch at
BRYN
(B & K Williams)



**Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG**
Ffôn: 677482

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am fisoedd Awst a Medi — Awst: £35, C. Williams, 1 Dôl Eilian, Llanberis (153); £25, K. Lewis, 22 Dôl Eilian, Llanberis (127); £15, E. Jones, Delfryn, Ffordd Capel Coch, Llanberis (120); £10, K. Evans, 2 Yankee, Llanberis (99); £5, C. Roberts, 12 Llainwen Isaf, Llanberis (18); Pelen eira (£50), M. Hellfeld, 6 Rhes Fictoria, Llanberis a P. Saynor, 42 Maes Padarn, Llanberis. **Medi:** £35, K. Roberts, Rallt Isaf, Llanberis (82); £25, A. Jones, Pant Hywel, Penisarwaun (113); £15, G. Jones, 27 Dôl Elidir, Llanberis (173); £10, M. Price, 39 Stryd Fawr, Llanberis (41); £5, W. Foulkes, 40 Stryd Newton, Llanberis (27).

Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn, Llanberis: Agorwyd tymor newydd y Gymdeithas ar nos Iau, 2 Medi, yn festri Eglwys St. Padarn, dan lywyddiaeth y Cadeirydd, Mrs Ann Parry-Jones. Dechreuwyd fel arfer trwy weddi gyda Mrs Nany Jones, Stryd Newton, yn arwain. Croesawyd y siaradwr gwadd, Mr Vince Hughes, Deganwy, i'n plith a chafwyd sgwrs ddiddorol ac addysgiadol iawn ganddo ar 'Hen Bethau'. 'Roedd y stori am y creiriau ganddo yn ddifyr tros ben. Diolchwyd iddo ac i westwagedd y mis, Mrs Moreen Lennon a Mrs Beryl Owen, gan Mr Ralph Jones. Enillwyd yr anrheg misol gan Miss Nancy Williams.

Diolch: Dymuna Colin ac Ann Saynor ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn Barbados yn ddiweddar.

Priodas: Ddydd Sadwrn, 28 Awst, yng Nghapel Jerusalem priodwyd Janice Wyn, merch hynaf Mr a Mrs Gilbert Jones, 7 Rhes Cambrian, Llanberis, â Michael Francis Heslop, mab Mr a Mrs K. Heslop, 119 Rhodfa Powys, Abertawe.

Gweinyddwyd gan y Parchg Gwynfor Williams a'r organyddes oedd Mrs Iola Evans. Y morynion oedd Glenda Jones a Dawn Heslop (chwiorydd y briodferch a'r priodfab) a Cynthia Johnston (ffrind y briodferch). Y gwas priodas oedd Stuart Moore a'r tywyswyr oedd Keith Jones (brawd y briodferch) a Steven Caldwell (ffrind y priodfab).

Cynhaliwyd y brecwast priodas yng Ngwesty Dolbadarn.

Byddant yn cartrefu yn 5 Forbes Street, Plas Marl, Abertawe.

Dymuna Janice a Michael ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, arian a chardiau a

dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Camgymeriad: Ymddiheurwn am y camgymeriad a wnaed wrth longyfarch Mr a Mrs Tom Toleman yn rhifyn diwethaf yr Eco. Dathlu eu Priodas Aur a fuont yn ddiweddar nid eu Priodas Arian fel a nodwyd gennym. Mae'n ddrwg gennym am y gwall, a llongyfarchiadau dwbl i chi'ch dau felly!

Capel Coch: Y mae'r cyfarfod plant wedi aildechrau wedi'r toriad dros yr haf. Mae'n cael ei gynnal ar brynghawn Mawrth, yn union wedi i'r plant ddod o'r ysgol. Cofiwch bod croeso i bob plentyn oed ysgol gynradd ddod i'r cyfarfod hwn. Byddwn yn cyfarfod bob dydd Mawrth yn ystod tymor yr ysgol.

Mae'r cyfarfod chwiorydd wedi aildechrau hefyd. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal bawn Iau, Hydref 7, am 2 o'r gloch. Mr Robert Williams, Deiniolen, fydd y siaradwr gwadd. Mae'n siŵr y bydd ei sgwrs ar y testun 'Pe meddwn y ddawn' yn werth ei chlywed, heb sôn am y te blasus y mae rhai o'r chwiorydd wrthi yn ei baratoi. Cofiwch am y cyfarfod, ferched Llanberis a'r Nant.

Ysgol Dolbadarn: Mae'r plant newydd yn setlo yn yr ysgol erbyn hyn. Cafodd plant dosbarth Mr Williams fynd i Blas Tan y Bwlch yr wythnos ddiwethaf i wneud gwaith cwrw. Roeddent wrth eu bodd yn chwilo a man bryfed ac yn eu harchwilio'n ddeheuig. Cynhelir cyfarfod blynyddol y Llywodraethwyr a'r Rhieni am 6.30 p.m. nos Fawrth, Hydref 12. Bydd cyfarfod blynyddol Ffrindiau'r Ysgol yn cael ei gynnal ar ddiwedd y cyfarfod hwnnw. Gobeithio bydd nifer dda o rieni yn dod i'r cyfarfodydd hyn. Bydd Mr Rhys ap Elwyn yn rhedeg ym Marathon Eryri'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar Hydref 31, ac mae cyfle i bobl eu noddi er budd yr ysgol.

CHWILIO AM DEULU

Glasfryn
Llanuwchllyn
Bala

Gwynedd LL23 7TY

Annwyl Olygydd,

Daeth Catherine, merch Robert ag Ann Roberts, Dolhendre, Llanuwchllyn, a aned 22 Mehefin 1848, i fyw i Lanberis wedi iddi briodi gan gadw siop ddillad (llewyrchus yn ôl pob sôn). Yn ôl y llun ohoni sydd yn fy meddiant ganwyd iddi ddwy ferch. Nis gwn ei henw priodasol nag unrhyw gyfeiriad.

Tybed a fedr eich darllenwyr fy helpu? Mae manylion gweddill y teulu gennyf a buaswn yn ddiolchgar iawn am wybodaeth i lenwi'r bwlch sydd ar ôl.

A fuasech mor garedig a chysylltu â mi yn y cyfeiriad uchod neu trwy ffonio 0678 4376.

Llawer o ddiolch am eich cymorth.

Yn gywir iawn,
ARTHUR JONES

Cefnogwch
ein
Hysbysebwr

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn ar nos Lun, 6 Medi, dan lywyddiaeth y Parchg Tegid Roberts. Y wraig wadd am y noson oedd Mrs Ann Floredine o Ynys Môn. Cafwyd noson ddifyr yn ei chwmmi yn olrhain ei hanes fel aelodau o Undeb Mamau. Diolchwyd i'r wraig wadd gan y Parchg Tegid Roberts. Rhoddwyd y te gan Mrs Gwen Griffith a Mrs Rosina Worth. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Lun, 4 Hydref a'r gŵr gwadd fydd Mr Collwyn Williams, Bethel.

Eisteddfod: Cynhelir Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi, Deiniolen a'r Cylch, yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen, ar nos Wener, 29 Hydref am 6 o'r gloch a dydd Sadwrn, 30 Hydref am 12 a 6 o'r gloch. Y beirniad cerdd fydd Mrs Valerie Ellis, Mynytho a'r beirniad adrodd a llên fydd Mr Aled Lloyd Davies, Yr Wyddgrug.

Marwolaeth: Ar 1 Medi bu farw Mrs Bessie Irene Roberts, priod Mr Henry Roberts, 33 Pentre Helen, yn dawel yn ei chartref wedi gwaelled hir. Bu'r angladd ym mynwent Macpela wedi gwasanaeth yng Nghewn-y-waun.

Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Bessie Irene Roberts ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag atynt yn eu galar o golli gwraig, mam a nain mor annwyl. Diolch i bawb am eu gofal o Bessie tra bu'n wael. Diolch yn fawr.

Genedigaeth: Ar Awst 28ain ganed Gethin Wyn, mab i Dylan a Wendy, 3 Jubilee Terrace, Y Felinheli, ac ŵyr i Emyr ac Anita, ac i Arthur a Meira. **Diolchiadau:**

Dymuna Nansi Ellis a Mair ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd yn eu profedigaeth o golli chwaer annwyl, Elsa. Diolch yn arbennig i'r Parchedigion Eifion W. Williams a

John Pritchard am eu cyfraniadau arbennig yn y gwasanaeth angladdol ac hefyd i Mr Myrddin Pritchard am y trefniadau trylwyr.

Dymuna teulu y ddiweddar Esther Ann Williams ddiolch o galon i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am y nifer fawr o gardiau, blodau a rhoddion a dderbyiwyd. Diolch hefyd i'r Canon Glyndwr Williams am ei gyfraniad arbennig yn Eglwys Llandinorwig ac i holl staff Ward Alaw yn Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Sara, brenhines carnifal Deiniolen, ddiolch yn fawr iawn am yr holl anrhegion ac arian a dderbyniodd.

Apêl Ymchwil i'r Cancr

Dewch i weld darluniau Hughie Jô's
Yn y pŵn neu gyda'r nos —
Gwerthfawr pob cyfraniad, boed fach neu fawr
At leddfu poenau cancr — y creulon gawr.

Ysgol Gwaun Gynfi: Rydym wedi dechrau tymor a blwyddyn ysgol newydd. Mae 18 o blant hynaf yr ysgol wedi ein gadael i fynd i'r Ysgol Uwchradd. Ond mae yma wynebau newydd, plant o ysgolion eraill a 29 plentyn bach yn nosbarth 1 hefo Mrs Griffith a Mrs Roberts. Mae Miss Williams wedi mynd ar gwrs am flwyddyn a Mrs Hughes wedi dod yma yn ei lle i ddosbarth 2. Bydd yna dri myfyriwr yn dod i'r ysgol yr wythnos nesaf ac yn aros hefo ni tan y Nadolig. Mae pawb yn brysur ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer Eisteddfod Gwaun Gynfi yn Hydref.

CERI A ZOE (Dosbarth 5)

Cyfarfod y Plant: Y mae'r cyfarfod plant, sy'n cael ei gynnal yn festri Ebeneser, wedi aildechrau wedi'r toriad dros yr haf. Mae'n cael ei gynnal ar brynghawn Iau, yn union wedi i'r plant ddod o'r ysgol. Cofiwch bod croeso i bob plentyn oed ysgol gynradd ddod i'r cyfarfod hwn. Byddwn yn cyfarfod bob dydd Iau yn ystod tymor yr ysgol.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

TU HWNT I FFYDD (1) gan Y Gwalch

Y mae gennyf gof da am wynebaw. Hyn â wnaeth i mi edrych ddwywaith ar y dyn oedd yn cerdded i fyny ac i lawr ciw y chwaraedy yn Llundain dan chwarae ei accordion. Roedd gryn ddeuddeng mlynedd ers pan welais Harri'r 'Minstrel' yn Aldershot. Yr oeddem bryd hynny yn disgwyl am gael ein hanfon i weithredu yn ein amryw alwedigaethau yn y fyddin. Yn ystod yr wythnosau rheiny diolchodd aml un am Harri. Meddyg ydoedd o Efrog. Heblaw hynny roedd yn ieithwr dan gam yn yn feistr ar amryw o offerynnau cerdd. Dan ei ddylanwad ef daeth aml i dôn hiraethus allan o hen biano'r NAAFI. Ond ei brif offercyn oedd yr accordion. Dyna sut y daeth i feddiant o'r llysenw 'Minstrel'. Pan ddaeth dydd y chwalfa deallais fod Harri wedi ei anfon i wasanaeth meddygol y lluoedd tros y môr.

'Harri?' meddwn wrthyf fy hun. 'Amhosibl.' Ond penderfynais gael gwybod. Cerddais ato a gafael yn ei fraich.

'Sut mae pethau'n mynd yr hen gyfaill?'

'Pwy . . .' a rhoddodd ysgrifwrad i'm llaw o'r neilltu. 'Oes' na gyfraith yn erbyn dyn i ennill ei damaid,' meddai a cherdodd yn frysio i ffwrdd.

Gan nad oeddwn awydd tynnu gormod o sylw fe'i gadewais a dychwelyd i'r rheng, ond nis gallwn rhoi fy meddwl ar y perfformiad y noson honno, a chodais ar yr hanner â mynd allan. Oddigerth un neu ddau yn llyffanta yn y glaw nid oedd neb o gwmpas. Cyn cychwyn adre fodd bynnag cefais syniad. Cefais air â cheidwad y drws oedd yn sefyll gerllaw. Deallais ganddo ef fod 'brawd yr accordion' yn ymweld â'r fan yn aml, a'i fod, medd rhai, yn trigo yng nghyffiniau Bermondsey. Penderfynais wedyn ddod o hyd i'r 'Minstrel' neu ei ail gread.

Trannoeth ymwelais ag amryw o dafarnau yn Bermondsey a thrwy brynu diod i un neu ddau o'r 'hogiau' cefais fynediad i'r cefn yn yr 'Wydd a'r Cigydd'. Yno yr oedd stafell eang wedi ei gosod ar gyfer ymarferiadau corfforol. Ymysg criw yn gwyllo dau yn paffio yn y gornel bellaf gwelais Harri'r 'Minstrel'. Gofalais beidio â dangos fy hun. Euthum allan ac yn groes i'r heol a chuddio mewn mynedfa. Daeth rhai allan toc ac yn eu mysg roedd Harri. Cerddodd yng nghwmni un arall am

blwc, ac yna wedi gadael ei gydymaith trôdd i'r chwith a dilynais innau o hirbell, nes ei weld yn diflannu i un o'r tai mewn heol gul. Arhosais yno am funud cyn mentro at y drws a churo. Ymhen tipyn agorwyd hwnnw gan wraig â golwg arni fel pe bai newydd godi o'i gwely. Roedd sigarét yng nghongl ei cheg ac edrychdd arnaf yn filain.

'Wel?' meddai yn ddisgwylgar.

'Rwyf yn chwilio am ddyn o'r enw Harri,' meddwn. 'Harri Noakes. Mae gennyf le i greu ei fod yma.'

'Felly yn wir,' meddai hithau. 'Diddorol iawn, ond mae arnaf ofn eich bod yn camsyniad. Does' na neb yma ond y fi,' a gwthiodd y drws i'w gau. Ond cyn iddi gael y cyfle sodrais fy sawdl ar y rhiniog, ac meddwn, gan fentro ergyd o bell:

'D'wedwch wrtho fod gen i newydd â fydd o fantais iddo.'

Petrusodd hithau gan edrych yn hir arnaf.

'Os mai arian sy'n dod iddo,' meddai, 'Cewch arbed trafferth drwy roi eu hanner i mi i glirio dyled ei rent. Dewch i mewn.'

Ar ôl i mi gamu i'r cyntedd tywyll ychwanegodd:

'Mae o yn y cyntaf ar y dde ym mhen y grisiau. Tendiwch faglu ar draws y poteli.'

Chwarddodd a diflanodd y tu ôl i lenni budron fel actores mewn drama.

Ar ôl dringo'r grisiau ansad curais ar ddrws yr ystafell ond nid atebodd neb. Curais wedyn yn galetach, ac yna troais y dwrn ac i mewn â mi. Yr oeddwn mewn ystafell gwely-a-byw fudr a thlodaid ac arogl cwrw ail-law yn crogi drwyddi. Ar wely anrhefnus gorwedda dyn ar wastad ei gefn yn cysgu. Roeddwn wedi dod o hyd i Harri'r 'Minstrel'.

Sefais uwch ei ben a'i ysgytian nes iddo ddeffro mewn braw ac edrych arnaf yn wyllt. Ni ddywedodd air, ond cododd a cherdedd at y ffenestr fechan. Sylodd trwyddi a'i gefn ataf.

'Roeddwn yn ofni,' meddai o'r diwedd, 'Na fuaset yn bodloni; un fely rwy'n dy gofio di.'

Yna gan droi'n sydyn i fy wyneb, gofynnodd, 'Beth wyt ti eisiau gen i Taff?'

'Dim,' meddwn innau. 'Dim ond beth wyt yn fodlon roi o dy wirfodd.' A cherdais tua'r drws.

'Tyrd yn dy ôl,' meddai wedyn. 'Eistedd.'

Pan oeddem yn wynebu ein gilydd, ef ar erchwyn y gwely a minnau ar hen gadair fregus, dywedodd:

'Does arna i ddim awydd creu cynwrf yn y tŷ' ma. Mae Janet yn dda wrthyf ar y cyfan,' gan daflu ei olwg tua'r drws. Gostyngodd ei lygaidd ac ychwanegodd, 'Mae'n ddrwg gen i na fuaswn yn gallu rhoi holl croeso i ti. Ond fel yna y mae hi; rhai yn llwyddo ac eraill yn mynd o dan draed.'

'Eithaf gwir,' meddwn. 'Ond mae y rhai sy'n llwyddo yn gwneud hynny trwy ymdrech wyddost.'

Tybiais weld ychydig o wrid yn codi i'w wyneb.

'Y mae rhai wedi mynd tu hwnt i ymdrech,' meddai.

'Roeddwn yn meddwl fod dy ymdrech di trosodd ar ôl iti raddio yn feddyg?'

'Dyna gredais innau nes i mi gael fy nhaflu alln o'r fyddin mewn sarhad.'

'Sarhad,' meddwn. 'Ni ddigwyddodd hynny i ti does bosib?'

'Dyna yn hollol â ddigwyddodd i mi.'

Bu distawrwydd am blwc. Er fy mod eisiau cael ei hanes nid oeddwn am grefu arno amdani. Agorwyd y drws yn sydyn, heb gnoc, a daeth y wraig a agorodd y drws i mi i mewn. Roedd ganddi ddwy gwpanaid o de ar hambwrdd.

'Mentrais ddod â llymaid i chwi fechgyn,' meddai yn hawddgar gan estyn y cwpanau i ni.

'Nid yn aml y bydd Harri yn cael ymwelwyr, yn na fyddi Harri?' ac meddai wrth droi ato, 'Os na fydd y lleian fach o'r Eidal yn dod i'w weld yn y nos.'

Chwarddodd yn uchel a throai allan gan glepian y drws.

Edrychais ar Harri. Roedd â'i ben i lawr yn troi ei de â'i law yn grynedig. O'r diwedd dywedodd yn wyllt:

'Dyna sydd i'w gael am rannu cyfrinachau â rhai,' a hyrddiodd y llwy oddi wrtho. Sylwais fod gronyn o falchder yn perthyn iddo o hyd.

'Beth sy'n dy boeni?' meddwn innau o'r diwedd.

'Wel, waeth i tithau gael gwybod ddim bellach.' Sipiodd ei de yn araf fel pe bai'n anodd ganddo ddechrau.

Er mwyn ei gynorthwyo gofynnais: 'I ble'r aethost ti o Aldershot?'

'I Ogledd Affrig,' meddai, 'Ond yn fuan ar ôl i'n lluoedd lano yn yr Eidal cefais fy symud yno hefyd. Yno y cefais fy nghanfod yn euog o ffoi o'r fyddin a'm hanfon i'r wlad yma. Rwyf wedi bod yn dilyn y math yma o fywyd ers hynny. Doedd gennyf mo'r wyneb i ddychwelyd i Efrog.'

'Beth wnaeth i ti ffoi? Deallais dy fod yn swyddog llwyddiannus iawn.'

'Oeddwn mae'n debyg,' meddai, 'Ond efallai fod i bob dyn ei adegau a'i gyfle, ond fy mod i wedi camddefnyddio fy rhai i. Yn Siena, Tuscany, yr oeddem ar y pryd yn dilyn ar ôl ein byddin fuddugol. Clywem newyddion ei bod yn ysgubo ymlaen i'r gogledd. Clywsom hefyd fod y colera wedi torri allan yn Fflorens, a bod rhai o'r meddygon Eidalaidd yn dianc oddi yno gan ei ofn, gan adael y rhai a oedd eisoes yn ei grafangau i gymryd eu siawns. Mae'n debyg nad oedd y fyddin yn hapus am fod posibilrwydd i'r haint wasgaru ymysg y milwyr. Daeth gorchymyn felly i feddygon o'r fyddin fynd i Fflorens a rhoi eu hunain at wasanaeth y dinasyddion. Roeddwn i yn un o'r rheiny. Rhodod i mi ardal neilltuol i wasanaethu ynddi, yn gynywysiedig ym mha un yr oedd lleiandy, ac ynddo griw o blant yn trigo. Ar fy ymweliad cyntaf yno canfyddais fod amryw o'r rhain a thair lleian o dan yr haint yn barod. Trefnais i'r rhain gael eu symud i ysbyty arbennig. Wedi hynny roedd fy ymweliadau â'r lleiandy yn rhai mynych. Byddwn yn treulio bore cyfan yno, ac wedi gorffen fy ngwaith tu mewn fe fyddwn, trwy ganiatâd y Fam Leian, yn mynd allan i'r ardd i eistedd cyn mynd ymlaen ar fy nhraith. Tra yr oeddwn felly yn gorffwysio arferai un o'r lleianod ddod â coffi i mi. Yr un eneth a ddeuai â'r diod bob tro, ac o ganlyniad, dechreuais ddod i adnabod ei gwedd a'i llais a'i mawr hoffi. Yn amlwg nid oedd rheol rhag iddi siarad â mi gan i mi ddeall mai geneth o wlad Tuscany oedd hi o'r enw Elena Cassori. Sylwedolais fy mod yn dechrau edrych ymlaen i'm hymweliadau â'r lleiandy a'r coffi yn yr ardd. Sylwedolais hefyd fy mod mewn cariad ag Elena Cassori a hithau, yn ôl pob golwg, â minnau. Sut y medrwn greu yn amgenach. Onid oedd wedi dweud wrthyf unwaith y buasai yn rhoi ei llw o'r neilltu pe bawn yn gallu mynd â hi oddi yno.

'Roeddwn erbyn hyn wedi mynd mor hyf â cyrchu i ardd yr adeilad wedi nos i siarad ag Elena drwy farau ei chell dywyll. Yn ystod yr adegau hynny y cynlluniasom ei dihangfa.'

'Ar ddiwrnod tanbaid, tua dau o'r gloch y pnawn, cerddwn yn hamddenol ar hyd i Via della Scala a pharsel o dan fy mraich. Ynddo yr oedd dilladau fel â wisgid gan ferched ffasiynol y cyfnod. Yn lle fy nillad swyddogol gwisgwn mufti. Tua phum munud wedi dau sylwais ar ddwy leian yn dod i lawr yr heol a thua hanner dwsin o blant yn eu gofal. Dilynais hwy o hirbell hyd nes y daethant at ysbyty lle roedd clinig y diwrnod hwnnw. Euthum i mewn ar eu holau. Yr oedd y lle yn bur lawn a llaweroedd yn gwibio yn ôl a blaen. Sylwais fod y ddwy leian yn eistedd ar fainc yn un o'r mynedfeydd. Euthum heibio iddynt drwy'r dyrfa a thro i'r dde. Yno gadewais y parsel ar lintel ffenest. Pysurais ymlaen nes cyrraedd drws a ddaeth â mi allan yn nghefn yr adeilad. Yno yr oedd cerbyd a logais yng nghynt. Eistaidais yn y sedd ôl gan adael y drws ar agor. Ymhen oriau megis daeth merch blydferth mewn dillad ffasiynol allan o'r adeilad ac i mewn i'r cerbyd.

'I'r orsaf,' meddwn wrth y gyrrwr. 'Ac i ble o'r fan honno?' gofynnodd Elena.

'I Bari,' meddwn innau.

Heliwch eich traed
am fargen i

**SIOP
ESGIDIAU
GLENS
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470**



Yswiriant Car neu
Yswiriant Tŷ
Gadewch i ni
Roi pris i chi.

TARIAN
6 Stryd Bangor,
Caernarfon
Ffôn: (0286) 677787

**CARPEDI
GLÂN**

Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf,
sydd ar gael. Am
fanylion cysylltwch â

**TEGID
PRITCHARD**
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 650291
hefyd ail-osod carpedi

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Merched y Wawr: Nos Fawr, Medi 9, estynnwyd croeso cynnes i'r aelodau i dymor newydd o'r gangen yn neuadd yr Ysgol Gynradd am 7.30 p.m. Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni ar yr ail nos Fawrth o bob mis, a'r tâl aelodaeth yw £5 am y flwyddyn.

Llywyddwyd gan yr Is-lywydd, Meryl Green, yn absenoldeb y Llywydd, Menna Williams. Dymunwyd adferiad iechyd buan i John, gŵr Menna, wedi'i driniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Cydymdeimlwyd yn ddwys â Mrs J. C. Williams, Bod Fair, ar golli ei chwaer yng nghyfraith.

Llongyfarchwyd aelodau o Dawns-wyr Caernarfon a'u hyfforddwr Idwal Williams ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanellwedd. Gyda balchter y llongyfarchwyd Ann Gibbins, sy'n aelod o'r gangen, am gael y drydedd wobwr am ysgrifennu Stori Fer yng nghystadleuaeth y dysgwyr yn Llanellwedd.

Llongyfarchwyd holl blant y pentref ar eu llwyddiant yn y gwahanol golegau a'r rhai fu'n sefyll arholidau TGAU a Lefel-A.

Y mae caridau Nadolig er budd Cymdeithas yr Anabl ar werth yn awr gan Mrs Nansi Lovatt — £1.50 am becyn o wyth.

Croesawyd gwestai'r mis, sef Meri Williams o Rhostrehwfa, Môn, arbenigwraig ar drin gwydr lliw. Er iddi gael damwain go arw cyn dod atom ni wnaeth y pwythau darfu dim ar ei sgwrs gartrefol a ffraeth a'i sleidiau a'i harddangosfa chwaethus.

Wedi'i hyfforddiant yng Ngholeg Wrecsam y mae bellach yn hynod brysyr yn cynllunio drychau, lampau ac anrhegion cain mewn gwydr ac y mae galw mawr arni i adnewyddu ffenestri lliw mewn capeli ac eglwysi ynghyd â chynllunio a gwneud ffenestri i gartrefi ac amrywiol adeiladau. Gwelir ôl ei llafur yng Nghapel Penuel, Llangefni, yn eglwysi Abererch, Caergybi, Tal-y-bont, Blaenau Ffestiniog, Dolydd, Y Groeslon, Rhosllannerchrugog — a hyd yn oed ffenestr i'r Tŷ Bach yn Abersoch! Meri a gynlluniodd ac a wnaeth y lamp fwrdd gywrair a gyflwynwyd i Mr Idriswyn Roberts, cyn-brifathro Ysgol Llanrug.

Diolchwyd i'r wraig wadd am noson ddiffr a hwyliog dros ben gan Phyllis Elis. Diolchodd Ann Lloyd i

Nansi Lovatt, Joan Griffith a Beryl Thomas am wneud y banded. Enillydd y raffl oedd Margaret Jones.

Nos Fawrth, 26 Hydref, y mae tocynnau ar gael gan Mrs Gwenda Roberts, Lleifior, ffôn: 678629 i ymweld â Theatr Gwynedd i fwynhau 'Awê Bryncoch'.

12 Hydref ceir sgwrs gan Gwenan Roberts am ei thaith i India.

Ysgol Gynradd Llanrug: Dyma ddechrau blwyddyn ysgol newydd a braf yw cael croesawu atom ddau aelod o staff newydd — Miss Bethan Morris Jones at Blwyddyn 3 a Mr Wyn Griffith at Blwyddyn 4. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith. Croeso'n ôl hefyd i Miss Simone Allsop fel gweinyddes i'n cynorthwyo.

Llongyfarchiadau i Miss Lynch, fe aned Alis Haf yn ystod gwyliau'r haf. Ein dymuniadau gorau i Amranwen, Graham a Lois.

Mae Blwyddyn 3 a 4 wedi bod ar daith addysgol yn barod i amgueddfa'r chwarel yn Llanberis. Cafodd y plant weld fideo ac arddangosfa o'r hen grefft a oedd yn rhan allweddol o fywyd gorffennol ein hardal.

Enillwyr Clwb Cant am fis medi — 1, Mrs Sally Lloyd Davies, Cilan, Tal-y-bont; 2, Mrs Susan Taylor, 11 Rhos Rug; 3, Mathew Thomas, Ty'n Rhos; 4, Mrs Rhiannon Ann Evans, 24 Nant y Glyn; 5, Mrs Meirwen Thomas, Y Foelas.

Marwolaeth: Fore Sul, 12 Medi, bu farw John Gruffydd Williams (Jack Tŵr) wedi gwaeldd byr. Fe'i cofir y tu ôl i gownter y llythyrdy pan oedd yng ngofal y Swyddfa Bost gyda'r diweddar D. M. Prichard, cyn y Rhyfel.

Ar alwad y wlad, fel llw o'i gydoeswyr, fe aeth i'r fyddin ac fe wasanaethodd yn Algiers, gogledd Affrica, a'r Eidal, cyn ei ryddhau yn 1946.

Wedi iddo gymhwyso ei hun fel athro yn Cheltenham fe wasanaethodd yn ysgolion yr L.C.C. hyd ei ymddeoliad fel prifathro yn Greenwich.

Gedy fab, dwy ferch a'u teuluoedd yn Llundain; brawd a chwaer yn Llanrug, a chwaer arall yn Nhref-garth.

Priodas: Dydd Sadwrn, Medi 18, yng Nghapel y Rhos, priodwyd Manon Prys Owen, merch Mr a Mrs Ifan Owen, Tŷ Fry, â John Geraint Thomas, mab Mr a Mrs G. Thomas, 21 Walton Crescent, Cyffordd Llandudno.

Gweinyddwyd gan y Parchg John Morris a'r organydd oedd Mr David Jones ac yn ystod y gwasanaeth cafwyd eitemau gan Miss Rhian Owen, cyfnither y briodferch.

Mrs Bethan Ll. Roberts oedd y forwyn, a nithoedd Manon — Manon, Lowri a Lois — oedd y morynion bach. Y gwas priodas oedd David Roberts a'r tywyswyr oedd Dewi Prys Owen a Stephen Roberts. Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Anglesey Arms, Porthaethwy.

Mae Manon yn gweithio ar Ward Gwynedd, Ysbyty Dewi Sant, Bangor, a Geraint gyda Nwy Cymru. Byddant yn cartrefu ym Mhorthaethwy.

Plaid Cymru: Daeth cynulleidfya arbennig o dda i gyfarfod cyntaf y tymor ac i groesawu'r gŵr gwadd O. M. Roberts, Dyffryn Conwy. Cawsom hanes difyr am gefndir llosgi Pen-y-berth, a'r fintai fechan a fu'n gyfrifol.

Croesawyd pawb yno gan Phyllis Ellis ac anfonwyd ein cofion at rai oedd yn cwyno ac yn arbennig Meirwen Lloyd, trysorydd y gangen, oedd yn yr ysbyty.

Rhodddwyd y te gan Nan Humphreys gyda Helen Parry, Llinos Davies, Nia Griffith a Catrin Whiteside Thomas yn helpu. Gwerthwyd y tocynnau raffl gan Vera Williams ac fe'i henillwyd gan Nan Humphreys.

Fe drefnir ymweliad gan gwmni Theatr Bara Caws yn neuadd Ysgol Brynrefail ar nos Wener, 1 Hydref.

Ar nos Fercher, 10 Tachwedd, edrychwn ymlaen at groesawu aelodau o ganghennau Deiniolen, Bethel a Llanberis ac fe drefnir cwis ar ein cyfer gan Arwel Jones.

Enillwyr diweddaraf y Clwb Cant yw — Awst: 1, June Jones,

Llandwrog; 2, Gwenda Roberts, Hafle. Medi: 1, Gareth Roberts, Gregynog; 2, Mrs J. Davies, Rhyd y Delyn.

Bydd y casglwyr yn barod i dderbyn eich tâl aelodaeth yn y dyfodol agos. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn Ysgol Brynrefail ar 1 Hydref, ac yn y Sefydliad Coffa ar 10 Tachwedd.


Diolchiadau:

Dymuna Mrs Lily Owen, 4 Cefn Elan, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, galwadau ffôn a'r caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd, ac ar ôl iddi ddod adref. Diolch hefyd i staff Ward Prysor yn Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Dylan Lloyd Jones, Llys Elen, ddiolch i'w deulu a'i gyfeillion am eu llongyfarchion, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd yn dilyn ei lwyddiant yn ei arholiadau TGAU.

Dymuna Mrs Mair E. Jones, Ogwen, Llanrug, ddiolch yn fawr iawn i aelodau'r Capel Mawr am yr anrheg arbennig a dderbyniodd ar ei hymddeoliad fel organyddes.

CAPEL Y RHOS



Y Parchg J. Morris yn llongyfarch Mr John Wyn Owen ar gwblhau 40 mlynedd o wasanaeth fel blaenor.

Yng ngwasanaeth ordeinio Henaduriaeth Arfon, a gynhaliwyd ym Brynrefail ar nos Fawrth, Medi 14, fe longyfarchwyd Mr John Wyn Owen, Llain y Delyn am iddo gwblhau 40 mlynedd fel blaenor. Yn

ogystal â gwasanaethu fel blaenor bu hefyd yn ysgrifennu y cyhoeddiadau am yr un cyfnod ac mae'n parhau i gyflawni'r ddwy swydd yng Nghapel y Rhos.



Y Parchg J. Morris a'r bobl ifanc a dderbyniwyd yn aelodau yn ddiweddar.

Yng ngwasanaeth yr eglwys a gynhaliwyd ar 19 Medi cafwyd y fraint o dderbyn wyth o blant yr eglwys yn gyflawn aelodau. Yn y llun gwelir y Parchg John Morris gyda Ceren Roberts, Sera Thomas, Lynne Shudlack, Iona Williams, Gwyn Jones, Mathew Williams, Iwan Parry a Dewi Owen. Yn y gwasanaeth cafwyd cyfle i longyfarch y Parchg W. O. Roberts, cyn-weinidog yr ofalaeth, sydd i'w anrhydeddu eleni am gyflawni 50 mlynedd yn y weinidogaeth; hefyd Mrs Mair E. Jones, Ogwen, a ymddeolodd yn

ddiweddar wedi gwasanaeth hir a gwerthfawr fel organyddes.

EISTEDDFOD LLANRUG
Nos Wener, Hydref 8fed
am 5.30 o'r gloch
Dyddiad derbyn Celf a Chrefft:
Nos Lun, Hydref 4ydd
am 6.30 o'r gloch



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall.

Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.

Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Llongyfarchiadau i Sara Wood, Fron Heulog, ar ei phenodi yn Ddirprwy Prif Ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. Dymunwn pob llwyddiant iddi hi a phobl ifainc eraill y pentref ar gyfer y flwyddyn academiaidd newydd.

Eisteddfod Pentref: Trist yw cofnodi na chynhelir yr Eisteddfod eleni oherwydd diffyg cefnogaeth i'r trefnydd. I bob pwrpas mae'r Eisteddfod wedi bod yn gyfrifoldeb un person yn ystod y chwe mlynedd diwethaf ac, yn naturiol, ni allai sefyllfa o'r fath barhau. Dau berson yn unig a fynychodd y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos lau, 16 Medi, ar gyfer gwneud y trefniadau sy'n sefyllfa siomedig iawn. Bu'r Eisteddfod yn gryn llwyddiant dros y blynyddoed gyda chefnogaeth frwd iddi ar y noson ei cynhaliwyd. Ond, mae angen llawer mwy o bobl o'r pentref i gynorthwyo gyda'r gwaith trefnu. Gobeithir yn fawr mai am eleni unig y peryn i sefyllfa yma ac y daw rhai ymlaen i wirfoddoli eu gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf. Os oes gennych ddiddordeb yna cysylltwch â Glyn Tomos.

Gŵyl Ddiolchgarwch: Eleni fe gynhelir yr Ŵyl ar brynhawn Sul, 17 Hydref am 3.45 yn Eglwys St. Mair. Pregethir eleni gan y Parchg Idris Thomas, Deon Gwlad Arfon, ac, fel arfer, bydd yna groeso cynnes i aelodau o enwadau eraill i ymuno yn y gwasanaeth hwn. Bydd yr Eglwys yn agored ar fore Sadwrn, 16 Hydref, rhwng 10 a 12 i addurno'r Eglwys gyda ffrwythau, llysiau a blodau. Gofynnir i bawb sydd wedi derbyn amlenni casgliad Cymdeithas y Beibla i'w dychwelyd erbyn dydd

Sul, 3 Hydref. Llawer o ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

Gwellhad Buan: Dyna a ddymunir i Mrs B. Roberts, 7 Maes Eilian, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Deallwn ei bod wedi dod adref erbyn hyn ac yn gwella. Anfonwn ein cofion hefyd i bawb arall o'r pentref sydd ddim yn mwynhau iechyd rhy dda ar hyn o bryd.

Plygu'r Eco: Diolch i'r criw bach, ond hynod weithgar, a ddaeth i'r Ganolfan ar nos lau, 9 Medi, i blygu'r Eco. Lle roedd pawb arall? Nid yw'n ormod i ofyn i ni fel pentrefwyr wneud y gwaith yma unwaith y flwyddyn.

Diolch: Dymuna Mrs Lizzie Catherine Roberts (Betty), 7 Maes Eilian, ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y rhoddion, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ar ar ôl dod adref. Llawer o ddiolch i'r meddygus a nyrsus Ward Enlli, ac hefyd nyrsus Clinig Deiniolen am eu gofal caredig. Diolch yn fawr i bawb. **Cymdeithas Lenyddol Undebol:** Bydd tymor newydd y Gymdeithas yn agor gyda chyngerdd yng nghwmni Meibion Dyffryn Peris ar nos lau, 21 Hydref, am 7 o'r gloch yn y Ganolfan. Yna ar y nos lau ganlynol, 28 Hydref, am 7 fe geir sgwrs gan Mrs Jane Hughes, Groeslon Uchaf. Felly dyna i chwi ddwy noson i edrych ymlaen atynt. Cofiwch gefnogi gwaith y Gymdeithas dros fisoedd y gaeaf.

Marwolaeth: Wrth i'r Eco fynd i'r wasg daeth y newydd trist am farwolaeth Mrs Jennie Jones, Buarth Newydd. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu yn eu profedigaeth.

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: 870440

Llongyfarchiadau i David John Pritchard, mab Melvyn a Prydwen Pritchard, Llys Awel, ar ennill cadair yn Eisteddfod Tregaron yn ddiweddar.

Dymuniadau gorau i Alan Pritchard, Llys Awel, sydd yn dechrau yn fyfyrwr yng Ngholeg y Normal, Bangor. Yr un yw'r dymuniad hefyd i Llinos Haf Jones, 10 Glanrafon Terrace, sydd yn dechrau fel myfyrwr yng Ngholeg y Brifysgol,

Bangor. Pob llwyddiant iddynt i'r dyfodol.

Derbyn yn gyflawn aelodau: Ar bnawn Sul, 12 Medi, derbyniwyd Alan Pritchard, Llys Awel, ac Iestyn Roberts, Llanrug, yn gyflawn aelodau o Gapel Rehoboth gan y Parchg John Pritchard. Dymunodd y Gweinidog yn dda iddynt a 'run yw'n dymuniadau ninnau hefyd ar yr achlysur pwysig hwn yn eu bywyd. **Croeso cynnes** i Glyn ac Ann Price, Glyn Peris, sydd ar wyliau o'u gwaith yn Nigeria.

Cydymdeimlo: Estynnwn ein cydymdeimlad i Lenny Hemnell, 4 Bro Glyder, wedi iddo golli ei dad yn Lerpwl yn ddiweddar.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Wavell Roberts

CIGYDD
London House
LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Geni ♥ Bedyddio ♥ Lloed ♥ Priodas ♥

✿ Achlysur arbennig? ✿
✿ Anrheg unigryw? ✿
Beth am un o sampleri

PWYTHAU CAIN

✿ Cynllunir pob sampleri yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

✿ Hefyd gwniadwaith o bob math gwnedd ddiad, newidiadau, ffenni, a.y.y.b.

✿ Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref: Newydd ♥ Darnau a farddoniaeth

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnio
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

MODURDY PLAS BACH CAEATHRO

Ffôn: C'fon 672072

Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

W.J. GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
Pant Tirion, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Bistro
43 - 45
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871278



AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD
HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM

FFENESTRI CELTAIDD
(CELTIC WINDOWS)

2 TAN Y BRYN, BETHEL




- ★ Gwydro Dwbl a Sengl
- ★ Gwaith Domestig a Chontract
- ★ Gwarant 10 mlynedd
- ★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim

CYMHARWCH EIN PRISIAU
CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160



CROESAIR HYDREF



AR DRAWS

1. Ceir miloedd o'r rhain o gwmpas (5 i lawr), ond nid os yw'r (5 i lawr) yn un sych (6)
4. Anelu at hwn wna pawb mewn rhagbrawf (6)
7. Daw ffrwyth eu gwaith i'r (23 ar draws) drwy gyfrwng ffrwyth gwaith Marconi (9)
9. Math o hudo yn ôl i fod yn unigol (4)
10. Ystlysfwrdd (4)
11. Un o giciau Jonathan Davies; am dâl? (5)
13. Mae'r ateb i hwn o'ch cwmpas (6)
14. Poen neu ing (6)
15. Hen ffurf o'r ateb i (4 i lawr)
17. Dyma a gewch ar eich pen-blwydd mewn rhai rhannau o Gymru (6)
19. O gymhlethdod dinas y daw'r defnydd hwn (5)
20. Masnachdy (4)
22. Gwelir golau coch pan fo (7 ar draws) ar hwn (4)
23. Hwn sy'n derbyn pan fo (7 ar draws) ar yr (22 ar draws) (9)
24. Un o'r un meddwl, yn gytûn (6)
25. Ceir hwyl o ymdrechion yr ynadon i olrhain hanes y cyhuddiedig (6)

I LAWR

1. Rhoi'r 'Post' neu'r 'Mail' ar y wal? (6)
2. Gosodiad a ddeil nad yw'r hyn a ddywedir yn wir (4)
3. Gwisgo (6)
4. Gweithred sy'n dwyn eiddo un ac yn dwyn sarhad ar y llall (6)
5. Gellir croesi'r ffordd neu'r swnt i'w chynraedd (4)
6. Daw teimladau angerddol o chwarae â'r swyn du (6)
7. Porfa neu gynefin y da gwlanog (9)
8. Fe all hwn yn hawdd fod wedi clywed y (7 ar draws) o flaen y (23 ar draws) (9)
11. Y Titan fu'n cario mapiau ar ei gefn? (5)
12. 'Yna . . . y cân dafod ____'; Eiseia 35:6 (5)
15. Planhigion y gellir gwneud moddion ohonynt (6)
16. Gwastadol, diatal (6)
17. Rhodd i'r tlawd (6)
18. Cryf, grymus, rhyfeddol (6)
21. Yr hyn sy'n eiddo i'r hwn sy'n (18 i lawr) (4)
22. Ysbrydoliaeth a ddaw o chwara' ag enwa (4)

ATEBION CROESAIR MEDI

Nifer cymharol fechan a fu'n cystadlu y mis yma. Efallai i'r ffaith bod un blwch du yn y lle anghywir wedi creu problemau ychwanegol! Un o'r pethau bach annisgwyl hynny mae arna'i ofn sydd tu hwnt i'r rheolaeth. Dylwn nodi hefyd bod 'arfell' (15 i lawr) yn ymddangos yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru er nad ydyw yn y Geiriadur Mawr.

Enw E. E. Jones, Tŷ Mawr, Rhoshirwaun, ddaeth allan o'r het gyntaf a llongyfarchiadau iddo ef/hi. Gobeithio y bydd nifer go sylweddol ohonoch yn anfon eich croeseiriau (wedi ei cwblhau!) i Dafydd Evans,

Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn Hydref 18fed os gwelwch yn dda.



ERIC JONES

PENISARWAUN

Ffôn: 872421

PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO

- ★ Prisiau rhesymol
- ★ Spreio tu mewn a thu allan
- ★ Estimates am ddim

Dyddiadur y Mis

MIS HYDREF

Gwener 1. **LLANRUG**: Plaid Cymru — Cwmni Bara Caws yn cyflwyno 'Diwedd y Byd' gan Meical Povey, yn Ysgol Brynrefail am 7.30 o'r gloch.
Llun 4. **DEINIOLEN**: Undeb y Mamau: Mr Collwyn Williams, Bethel.
Iau 7. **BRYNREFAIL**: Cymdeithas y Chwirydd: anerchiad gan Mrs M. Lennon, Llanberis.

Gwener 8. **LLANRUG**: Eisteddfod y Pentref am 5.30 o'r gloch.
Llun 11. **DEINIOLEN**: Cyngor Eglwys — Libanus — Cyfarfod Diolchgarwch am 7 o'r gloch.

Mawrth 12. **LLANRUG**: Merched y Wawr: Sgwrs gan Gwenan Roberts — 'Taith i'r India'.

Mercher 13. **BETHEL**: Merched y Wawr. Trefnu blodau gyda Alwyn a Sarah Jones.

Iau 14. **DEINIOLEN**: Cyfarfod y Chwirydd yn Ebeneser am 7 o'r gloch.
Sul 17. **DINORWIG**: Gŵyl Ddiolchgarwch Undebol yn Eglwys St. Mair.
DEINIOLEN: Gŵyl Ddiolchgarwch Cefn-y-waun ac Ebeneser.

Llun 18. **CAEATHRO**: Cyfarfod Cyffredinol pwyllgor y Cae Chwarae am 8 o'r gloch yn Bryngwna.

Iau 21. **DINORWIG**: Y Gymdeithas Lenyddol Undebol: Cyfarfod Agoriadol gyda Chyngerdd gan Gôr Meibion Dyffryn Peris yn y Ganolfan am 7 o'r gloch.

Llun 25. **DEINIOLEN**: Y Gymdeithas Lenyddol. Gŵr gwadd: John Owen.
Mawrth 26. **DEINIOLEN**: Merched y Wawr: Ymweliad â Theatr Gwynedd.

Iau 28. **DINORWIG**: Y Gymdeithas. Sgwrs gan Mrs Jane Hughes.

Gwener 29. **DEINIOLEN**: Eisteddfod Gwaun Gynfi am 6 o'r gloch yn Ebeneser.

Sadwrn 30. **DEINIOLEN**: Eisteddfod Gwaun Gynfi yn Ebeneser am 12 a 6 o'r gloch.

Sul 31. **BRYNREFAIL**: Gŵyl Ddiolchgarwch.

DIOLCH I DDOSBARTHWR

Hoffem ddiolch i Olwen Williams a fu'n un o ddosbarthwyr yr Eco yn y Waunfawr ers rhai blynyddoedd ond sydd bellach yn dymuno cael seibiant o'r gwaith. Os oes yna rywun yn barod i roi help llaw i'r Eco drwy ddosbarthu ychydig yn y Waunfawr a fydddech cystal a chysylltu â'n Trefnyd Gwerthiant, Siân Gwenfron Hughes, Derlwyn, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.

RHODDION

£10: Marina Williams.

£5: Mr a Mrs Michael Heslop, Abertawe; Nansi, Elis a Mair, Deinioelen, er cof am Elsa; Mr H. Henry Roberts, 33 Pentre Helen, Deinioelen.

£3: Colin ac Ann Saynor; Mrs Mair Bullock, Cheadle Hulme.

£2: Lily Owen, 4 Cefn Elan, Llanrug; Dylan a Wendy, 3 Jubilee Terrace, Y Felinheli; Mrs Lizzie Catherine Roberts (Betty), 7 Maes Eilian, Dinorwig; Colyn a Ruth Morris, Bwthyn Foel Gron, Dinorwig.

MAMAU SY'N BWYDO O'R FRON
Fe gynhelir y grŵp cynorthwyol uchod am 2 o'r gloch, ar bwnniau Mercher y cyntaf a'r pedwerydd o bob mis yn Ystafell Gymdeithasol, Ysgol Penisarwaun. Cysylltwch â Tracey ar (0286) 381104.

Hefyd, yng Nghlinic Bron Hendre, Caernarfon, ar bwnniau Mawrth y cyntaf o bob mis am ddau o'r gloch. Cysylltwch ag Eilir, (0286) 677870.

ATODIAD LLANRUG

Diolch: Dymuna Manon a Geraint ddiolch yn fawr i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion gwerthfawr a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.
Diolch arbennig i Rhian am ei datganiad yn ystod y gwasanaeth; i Mrs Beryl Thomas am y trefniant blodau yn y capel; ac i'r gofalwr Mr John Wyn Owen.

Dymuna Miss Mary Owen, 3 Hafan Elan, Llanrug, ddiolch yn gynnes iawn i'w chymdogion a'i ffrindiau am y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddiweddar.

ATEB YMHOLIAD Mrs D. M. JONES

Mae Selwyn Griffith yn ei golofn yn cynnig ateb i Mrs Jones ynglŷn â'r llinellau barddoniaeth a ddyfynwyd ganddi yn y rhifyn diwethaf. Diolch i'r nifer o'n darllenwyr eraill a gysylltodd, ac yn arbennig i T. Arfon Williams, Tony Elliott ac Enid Evans am y wybodaeth ddiddorol a gafwyd ganddynt.

DIOLCH

Dymuna Mr Wynne Jones, Bryn Awel, 37 Y Wern, Llanfairpwll (gynt o 18 Belmont Avenue, Bangor) ddiolch yn ddiffuant iawn i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd yn ystod, ac yn dilyn, ei lawdriniaeth ym Manceinion yn ddiweddar. Bu'r holl gardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau yn gymorth ac yn gysur mawr iddo.

CHIROPODIST

Gwasanaeth yn

eich cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon

LLANRUG

Ffôn:

Caernarfon

675754

CHWARAEON

Y DREF v Y WLAD

Hoffwn ymhelaethu ar bwynt a wneuthum yn fy llith y mis diwethaf. Gofynnais os oedd yna ormod o dimau ieuencid yn yr ardal a dim digon o chwaraewyr?

Soniais droeon am fy edmygedd o deyrngarwch a dyfalbarhad y criw ffyddlon ym mro'r Eco sy'n rhoi o'u hamser i feithrin a chynnal timau ieuencid y fro — o — 10 i — 16 oed. Bellach mae yna dimau yn Rhiwlas, Llanrug, Deiniolen, Llanberis a Bethel ond yn naturiol nid oes digon o ieuencid i gynnal tîm cryf ym mhob oedran ac o'r herwydd fe ddaw llwyddiant i'r timau mewn cylchoedd. Nid yw'r sefyllfa honno

yn digwydd yn yr ardaloedd trefol. Er enghraifft, dim ond un tîm o dan 14 sydd gan Caernarfon eleni, o ystyried y dewis sydd yno.

Yn ddiweddar fe gollodd tîm o dan 14 Bethel o 12-1 yn erbyn y Cofis — dim pleser, dim dysgu. Yn y gêm ganlynol, yn erbyn Tal-y-sarn, cafwyd dau dîm pentrefol a chanlyniad o 3-2 i Dal-y-sarn gan roi mwy o bleser i'r hogiau ac edrychant ymlaen am y 'return'.

Yn fy mro enedigol mae tîm Llanllechid yn cynnwys Bethesda a Thre-garth — tipyn o ardal, tipyn o boblogaeth. Tybed a oes ateb i'r broblem yma? Mae'r un broblem yn bodoli ym Môn.

Oherwydd lleoliad ac agosatrwydd

y timau a'r pentrefi a nodais onid oes yna bosibilrwydd o gael cynghrair Bro'r Eco. Fe fyddai'n sicr yn gystadleuol ond gan fod y mwyafrif o'r ieuencid yn mynychu Ysgol Brynrefail rwy'n siŵr y byddai ysbryd rhagorol yn bodoli ar y cae.

Ond beth am Cynghrair Gwyrfa'i meddech chi? Yn sicr mae'n ddyletswydd arnom i gefnogi'r gynghrair honno oherwydd eu cyfraniad i ddatblygiad pêl-droed. Ond onid yr ateb fyddai cael 'tîm bro' yng Nghynghrair Gwyrfa'i? Oni fyddai hyn yn rhoi i ni y gorau o ddau fyd gan y gallai chwaraewr gynrychioli ei bentref ac yna y goreuon o'r timau lleol yn chwarae gyda'u gilydd yn y tîm bro.

Yr elfen o ddatblygu sgiliau trwy y pleser wrth chwarae, yn hytrach na 'rhaid ennill bob tro' sydd y tu cefn i'm dadl.

Beth am ymateb gan y rheolwyr lleol.

AMRYWIOL CHWARAEON YSGOL BRYNREFAIL

Oherwydd diffyg lle yn y rhifyn diwethaf o'r Eco ni chafwyd canlyniadau mabolgampau'r ysgol. Fe wyddom fod yna nifer o gyn-ddisgyblion yr ysgol yn cymryd diddordeb ym mherfformiadau'r ysgol gan fod yna sustem wych o gadw ystadegau yn bodoli.

Sgôr terfynol y tai yn y mabolgampau eleni oedd: Eryri 358, Elidir 311, Eilian 321½, Gwyrf 335½.

Aeth y Victor Ludorum i Eifion Jones (hogyn Hywyn) a'r Victrix Ludorum i Manon Williams (merch Iwan).

Yn ddiweddar fe gynhaliwyd treialon pêl-droed carfan o dan 13 ysgolion Arfon. Dewiswyd carfan o 16 ar gyfer y gêm yn erbyn ysgolion Môn ac yn eu mysg Eifion Jones, Gerallt Hughes ac Owain Machno o Lanrug, ac Andrew Williams o Fethel.

Cyrhaeddodd carfan griced Blwyddyn 7 rownd derfynol twrnament Gwynedd. Mewn gêm gyffrous fe gollwyd i Ysgol Friar o bum rhediad.

Yn ystod wythnos gyntaf y tymor cafodd nifer o ddisgyblion Blwyddyn 9 wythnos pur galed — ond pleserus — mewn gwahanol agweddau o weithgareddau awyr agored. Cynhaliwyd y gweithgareddau mewn cydweithrediad â Chanolfan Awyr Agored Sir Henffordd a Swydd Caerwrangon — sydd wedi'i lleoli yn Llanrug — o dan ofal hyfforddwy profiadol y Ganolfan. Fe gysylltwyd ag Ysgol Brynrefail gan staff y Ganolfan honno er mwyn dangos eu parodrwydd i wella'r cysylltiadau ag ieuencid yr ardal. Gan fod cryn alw am wasanaeth y Ganolfan, o du arall Clawdd Offa, fe fu'n rhaid trefnu'r gweithgareddau pan oedd cyfle.

Yn ystod yr wythnos fe gafwyd hyfforddiant mewn canwio ac yr oedd dringo'r creigiau uwchlaw y môr yng Nghaergybi yn hynod boblogaidd. Roedd y mwyafrif o'r disgyblion wedi mwynhau eu hunain ac yn awyddus iawn i gael profiadau tebyg yn y dyfodol agos.

fyddai hynny yn ddwbwl hanesyddol.

Llongyfarchiadau i Chivers ar ei briodas yn ddiweddar — mae'n gwadu fod Jiws wedi awgrymu iddo y buasai priodi yn gwella ei ffitrwydd!

Roedd stori Derek Lloyd Jones, gynt o Lanrug, a'i gysylltiad â clwb rygbi'r gynghrair Wigan, yn ddiddorol iawn. Mae'n bur debyg fod yna nifer o storïau tebyg am bobol o fro'r Eco sydd wedi crwydo i bedwar ban byd. Beth am adael i ni wybod. Mae'n sicr fod yna rhywun yn Awstralia, Canada, Yr Unol Daleithiau . . .

Gofynwyd i mi droeon yn ddiweddar — beth ddylai'r dyfarnwr fod wedi ei wneud wedi i Grobbelar a McMannan ymladd ar Barc Goodison. A ddylai'r rheolau fod yn ddi-rym am fod y ddau chwaraewr yn yr un tîm? A'r ateb pendant: NA.

Ble mae nhw nawr?



Mae'r llun yn dangos tîm pêl-droed dan 13 Ysgol Brynrefail 1979-80, pan oedd Malcolm Allen yn gapten arno. Pwy oedd gweddill aelodau'r tîm? Ydyn nhw'n dal i chwarae? Byddai'n ddiddorol cael gwybod.

TAMAIID I AROS PRYD

Peth trist ydi colli'r fraint o ddal record. Fel dyfarnwr roeddwn yn dal dwy record — dyfarnu y gêm gyntaf yng Nghynghrair Arfon i'w chwarae o dan lifoleuadau (UCNW v Pen-y-groes) a'r enwog 17-0 yn Llanrug. Gyda thristwch y collais yr ail record. Os oedd y gêm 17-0 yn ddadleuol — y sgôr uchaf yng Nghynghrair Gwynedd ar y pryd — beth am Llanrug 23, Y Bermo 0! Ar wahân i'r sgôr chwerthinllyd roedd hyn yn difrio'r gynghrair ac yn dangos yn glir ddiffyg gallu tîm y Bermo.

Os mai bwriad pwyllgor Cynghrair Gwynedd oedd ymestyn aelodaeth o'r gynghrair i bob rhan o'r sir mae hynny i'w ganmol. Ond, rhaid cofio fod sustem pyramid yn y byd pêl-droed.

Oni ddylid fod wedi gwneud tipyn mwy o ymchwil cyn iddynt dderbyn tîm y Bermo a hynny o gofio iddynt gael eu gwahardd o'u cynghrair blaenorol?

Wrth i ni weld sgoriau mawr yn rheolaidd yn erbyn y Bermo ni fydd yn syndod eu gweld yn ymddiswyddo gan ddod a mwy o sarhad ar y gynghrair.

Gobeithio y gall tîm Deiniolen, trwy llwyddiant a threfniadaeth, ennill eu lle yng Nghynghrair Gwynedd y tymor nesaf. Ond fe allai y Bermo gael hyfforddwr o Tseina!

Derbyniwyd apêl oddi wrth Cynghrair Arfon am stiwardiaid. Yn y dyfodol agos fe gynhelir ras flynyddol o Gaernarfon i Fangor ac mae'n ras boblogaidd gyda nifer o redwyr lleol yn cymryd rhan. Mae rhan fwyaf o'r ras yn cael ei rhedeg ar y briffordd trwy Fethel a Llanddeiniolen ac i sicrhau diogelwch y rhedwyr mae'n hanfodol fod y ras yn cael ei stiwardio yn drwyadl. Os hoffech chi gyfrannu i lwyddiant y ras trwy wirfoddoli i fod yn stiward mewn lle penodol, am rhyw hanner awr o amser, yna cysylltwch â Jennie Fletcher neu Aled Roberts yng Nghynghrair Arfon.

Wedi'r disgwyl hir mae Neuadd Goffa Bethel ar ei newydd wedd yn barod i ddefnydd y cyhoedd. Yn y brif neuadd fe farciwyd cwrt badminton ar gyfer y gystadleuaeth rhyng-bentrefol ac os oes gennych

ddiddordeb i drefnu criw a fuasai'n hoffi chwarae ar ryw noson benodol yna gadewch i mi wybod fel y gellir cael cynnod ar amserlen wythnosol y Neuadd. Rwy'n siŵr y byddai ffurfio clwb badminton yn rhoi arweiniad i sefydlu grwpiau chwaraeon eraill. Rydych wedi cyfrannu at y Neuadd — wel rŵan beth am 'i defnyddio hi?

Mae un o sêr pêl-droed o'r ardal wedi cael cryn sylw yn ddiweddar. Nid dyma'r tro cyntaf i Malcolm Allen symud i glwb sydd ar fin mwynhau llwyddiant. Fel yn Norwich mae ei symudiad i Newcastle i'w weld yn un fendithiol iddo. Mae'n amlwg y dylai dynnu sylw Terry Yorath unwaith eto ond ni allaf weld Malcolm yn disodli Rush, Giggs neu Saunders yn llinell flaen y tîm cenedlaethol ond a yw'r gallu gan Malcolm i chwarae y tu ôl iddynt gan eu bwyd â'r bêl gyflym angenrheidiol? Mae yna si y bydd Gavin Allen, brawd Malcolm, yn ymuno â charfan dan 18 ieuencid Cymru. Gan fod Malcolm wedi bod yn aelod o'r tîm hwnnw hefyd fe